

# Adroddiad Arholwyr Lefel 3

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Lefel 3

Haf 2024

© WJEC CBAC Ltd | City & Guilds.

**Cyflwyniad**

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

**Cefnogaeth bellach**

| Mapio | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig.  Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

© WJEC CBAC Ltd.

**Cynnwys**


| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 5 |
| Uned 1 | 7 |
| Uned 2 | 16 |
| Uned 3 | 22 |
| Uned 4 | 24 |
| Uned 5 | 29 |
| Uned 6 | 32 |
| Uned 7 | 37 |
| Uned 8 | 40 |
| Uned 9 | 43 |
| Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau | 47 |


© WJEC CBAC Ltd.

## Crynodeb Gweithredol

Hon oedd blwyddyn gyntaf y cymhwyster Lefel 3 Diploma Estynedig, a oedd yn cynnwys dwy uned Asesiad Di-arholiad newydd i'w cyflwyno am y tro cyntaf a rhai mân newidiadau i unedau eraill. Yn gyffredinol, mae cyflwyno gwaith ar gyfer unedau sy'n cael eu hasesu'n fewnol newydd a rhai sy'n bodoli eisoes wedi bod yn syml y gyfres hon trwy uwchlwytho'n electronig. Roedd y ddwy uned a asesir yn allanol ar gael i ymgeiswyr ar-lein ac ar bapur.

### Unedau a Asesir yn allanol (2 a 7)

Roedd safon gyffredinol yr ymatebion i'r ddau bapur yn dda gydag ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o gynnwys y fanyleb. Gwelwyd cymhwyso gwybodaeth yn dda trwy ymatebion dilys, ac roedd rhai atebion yn dangos dealltwriaeth effeithiol o ferfau gorchmynnol AA3; roedd dadleuon datblygedig, cytbwys a rhesymegol yn amlwg mewn llawer o achosion wrth ateb cwestiynau 'gwerthuswch', 'aseswch' ac 'ystyriwch'.

Byddai bod yn gyfarwydd â'r berfau gorchmynnol yn fuddiol trwy ymarfer arholiadau ac annog ymgeiswyr i ddatblygu eu hatebion yn llawn i sicrhau bod y bandiau marciau uwch yn cael eu cyrraedd. Yn yr un modd, mae tynnu sylw at dermau allweddol i sicrhau bod pob cwestiwn yn cael ei ddeall yn llawn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd ymgeiswyr yn gwneud camgymeriadau o ran y cyfarwyddyd neu ddim ond yn ateb y cwestiwn yn rhannol. Mae'r arweiniad i'r arholiad ar wefan CBAC yn pwysleisio pwysigrwydd hyn ynghyd ag awgrymiadau eraill ar gyfer arholiadau.

Roedd y gyfradd ymgeisio ar gyfer cwestiynau yn Uned 2 ac Uned 7 yn dda eleni, gan ddangos bod ymgeiswyr wedi cael eu paratoi'n dda gan ganolfannau.

Dylid plethu gwybodaeth am y prif ddamcaniaethwyr o fewn addysgu manyleb Uned 2 i alluogi ymgeiswyr i arsylwi ar sut mae damcaniaethau'n cael eu cymhwyso at senarios ymarferol; mae gwybodaeth sylfaenol am bob damcaniaethwr yn hanfodol i ennill marciau mewn cwestiynau ar ddamcaniaeth.

Roedd rhai atebion ar bapur Uned 7 yn gofyn am fwy o fanylion i gyrraedd y band marciau uwch, yn enwedig ar gyfer yr amcanion asesu uwch. Dylai esboniadau ddangos ymateb datblygedig gyda ffeithiau wedi'u cyflwyno mewn rhywfaint o ddyfnder.

### Unedau a asesir yn fewnol (1, 3, 4, 5, 6, 8 a 9)

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd tasgau mewn trefn ac yn cael eu cyflwyno'n briodol gyda thystiolaeth wedi'i dogfennu a'i chyfeirnodi'n dda drwyddi draw. Ar gyfer tasgau lle na chaniateir defnyddio'r rhyngrwyd, dylid uwchlwytho nodiadau dosbarth i ategu'r gwaith.

Rhaid i waith ymgeiswyr gadw at amcanion asesu'r corff dyfarnu a rhaid i ganolfannau sicrhau bod y gwaith yn ymdrin yn llawn â'r rhain cyn rhoi marciau yn y bandiau uwch. Dylai gwaith ymgeiswyr fod yn eu geiriau eu hunain ac unrhyw ddyfyniadau uniongyrchol y cyfeirir atynt.

Dylai canolfannau gymryd sylw o argymhellion ynghylch grwpiau, lleoliadau a phynciau ymchwil unigol (Unedau 3, 6 a 9) i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael cyfle i gyrraedd yr ystod lawn o farciau sydd ar gael.

Braf oedd nodi, ar gyfer unedau lle mae astudiaethau achos a senarios yn newid yn flynyddol, bod pob canolfan yn defnyddio'r wybodaeth gywir.

© WJEC CBAC Ltd.

Dylid uwchlwytho gwaith mewn fformatau cryno i alluogi cymedroli syml i ddigwydd, mewn geiriau eraill, ni ddylid uwchlwytho mwy nag un ffeil ar gyfer pob cwestiwn o fewn tasg. Yn ogystal, dylid gwirio fod ffeiliau cywasgedig wedi'u huwchlwytho'n gywir er mwyn osgoi i symbolau ymddangos mewn ymatebion ymgeiswyr. Mae'n ddefnyddiol rhedeg gwaith ymgeiswyr trwy wiriwr llên-ladrad cyn i ymgeiswyr ei lofnodi i ddilysu eu gwaith fel eu gwaith yr ymgeisydd.

| **Meysydd i'w gwella** | **Adnoddau ystafell ddosbarth** | **Disgrifiad byr o'r adnodd** |
|---|---|---|
| Arholiad ymarfer cwestiynau | HTTPS://WWW.DYSGUIECHYDAGOFAL.CYMRU/ADNODDAU | ADOLYGU ARHOLIADAU AR-LEIN<br>ARWEINIAD I'R ARHOLIAD<br>PAPURAU YMARFER A CHYNLLUNIAU MARCIO |
| Atgyfnerthu dysgu/ gwybodaeth | HTTPS://WWW.DYSGUIECHYDAGOFAL.CYMRU/ADNODDAU | Deunyddiau Asesu Enghreifftiol<br>Canllaw i athrawon |
| Strwythur yr Asesiad Di-arholiad | GWEFAN DDIOGEL CBAC | Deunyddiau enghreifftiol<br>Adnoddau DPP |

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 3**

**Haf 2024**

**UNED 1: EGWYDDORION GOFAL AC YMARFER DIOGEL O FEWN GOFAL PERSON-GANOLOG SY'N CANOLBWYNTIO AR GANLYNIADAU**

## Trosolwg o'r Uned

Mae'r uned hon yn ymwneud â gwybodaeth a dealltwriaeth o rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd proffesiynol ymarferwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Rhoddir astudiaeth achos i ymgeiswyr o ddewis o ddwy astudiaeth ond ni chaniateir iddynt weld yr astudiaeth achos tan ddechrau'r asesiad.

Bydd astudiaethau achos yn cynnwys manylion am ddau unigolyn ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol amrywiol. Mae ymgeiswyr yn dewis un senario i lunio adroddiad yn seiliedig ar egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan ymchwilio i'r ffordd y mae ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cymhwyso egwyddorion i helpu unigolion i gyflawni canlyniadau. Ar gyfer Tasg 2 mae ymgeiswyr yn llunio taflen wybodaeth, blog neu gyflwyniad sy'n dangos gwybodaeth am sut mae deddfwriaeth a pholisi yng Nghymru yn ysgogi gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn Nhasg 2 yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gwahanol leoliadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac yn cofio y gall lleoliadau hefyd gynnwys cartrefi unigolion. Dylai Tasg 2 ganolbwyntio ar y lleoliadau sy'n berthnasol i'r astudiaeth achos a ddewiswyd.

Asesir amcanion asesu dros bum cwestiwn ar gyfer Tasg 1 a dau gwestiwn ar gyfer Tasg 2 gyda 40% o Uned 1 yn cael ei asesu ar gyfer AA1, 36% ar gyfer AA2 a 26% ar gyfer AA3.

Mae cynnwys a asesir yn Uned 1 yn ymwneud ag egwyddorion gofal, gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, heriau a wynebir gan ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, dulliau/egwyddorion moesegol, meithrin ymddiriedaeth a chyfathrebu effeithiol. At hynny, mae Tasg 2 yn asesu gwybodaeth am ddeddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r lleoliad penodol yn yr astudiaeth achos. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o godau ymddygiad/ymarfer proffesiynol a sut maent yn arwain y gweithwyr a bennir yn y lleoliad.

Ar y cyfan, roedd perfformiad eleni yn dda, mae'n ymddangos bod ymgeiswyr a chanolfannau yn fwy cyfarwydd â chysyniadau allweddol a sut mae'r rhain yn cael eu cymhwyso ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

## Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

Hon oedd y drydedd flwyddyn o asesu ar gyfer yr uned hon.

Ar y cyfan, dangosodd y gwaith ar gyfer yr uned hon wybodaeth ragorol gan ymgeiswyr, ond cododd rhai materion mewn cofrestriadau y bydd angen mynd i'r afael â nhw cyn y gyfres nesaf.

© WJEC CBAC Ltd.

Cafwyd rhai enghreifftiau rhagorol o ddealltwriaeth fanwl o egwyddorion gofal a sut i gymhwyso'r rhain yn ymarferol. Cafodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr farc rhesymol neu dda yn yr asesiad er bod gwybodaeth rhai ymgeiswyr o gymhwyso egwyddorion gofal yng nghyd-destun yr astudiaeth achos yn gyfyngedig.

Cafodd amrywiaeth o arddulliau o ran dogfennaeth marcio ac asesu ei chyflwyno gan ganolfannau ar gyfer cymedroli. Rhoddodd rhai canolfannau anodiadau ardderchog ar waith ymgeiswyr a fu modd i gymedrolwyr weld sut y cyfiawnhawyd penderfyniadau asesu. Roedd anodiadau canolfannau eraill yn brin iawn. Darparwyd nodiadau dosbarth gan fwy o ganolfannau ar gyfer y gyfres hon, a oedd yn plesio. Roedd yn anodd cadarnhau dilysrwydd nodiadau dosbarth am fod llawer o ymgeiswyr wedi dibynnu gormod ar ddefnyddio'r rhyngrwyd. Roedd rhai atebion, yn enwedig ar gyfer tasg 2, yn cynnwys testun a ddyfynnwyd yn uniongyrchol o'r rhyngrwyd, nad yw'n dderbyniol, gan fod y fanyleb yn nodi fod rhaid i waith fod yn eiddo i'r ymgeiswyr eu hunain ac mae'n gyfrifoldeb ar yr aseswr/tiwtor i gadarnhau dilysrwydd nodiadau dosbarth.

Mae tudalen 71 o fanyleb y cymhwyster yn cynnwys nodyn atgoffa defnyddiol yma:
**“Rhaid i'r ganolfan gadw'r holl nodiadau a ddefnyddir gan ymgeiswyr a'u cyflwyno i gael eu hadolygu fel rhan o'r broses gymedroli.”**
Cyfrifoldeb yr athro/aseswr yw adolygu'r nodiadau y mae ymgeiswyr yn bwriadu mynd â nhw i'r amgylchedd asesu gan sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion uchod. Os oes gan athro/aseswr unrhyw bryderon ynghylch dilysrwydd y nodiadau dylent atal yr asesiad rhag digwydd a dilyn eu gweithdrefnau mewnol eu hunain sydd ar waith i ymdrin ag achosion lle mae amheuaeth o gamymddwyn.

*“Rhaid i ymgeiswyr ddeall y bydd cyflwyno deunydd a gopïwyd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill heb gydnabyddiaeth yn cael ei ystyried yn dwyll bwriadol. Rhaid i ganolfannau wneud y canlynol*
*rhoi gwybod i CBAC am unrhyw amheuon o gamymddwyn os yw'r ymgeisydd wedi llofnodi ffurflen*
*y datganiad dilysu.”*

Wrth gyflwyno gwaith ymgeiswyr i'w gymedroli, byddai rhestr wirio ddefnyddiol isod yn fuddiol a byddai'n cynorthwyo'r broses gymedroli.

| **Rhestr wirio cymedroli ar gyfer Uned 1:** | **Ticio'r rhestr wirio.** |
|---|---|
| Mae'r daflen farciau wedi'i chwblhau'n llawn, ac mae marciau'n adio'n gywir (dylid gwirio hyn ddwywaith). | |
| Mae'r gwaith wedi'i labelu â gwybodaeth gywir e.e., rhif yr ymgeisydd/enw'r ymgeisydd ac ychwanegwyd y pennawd a'r troedyn at bob tudalen. | |
| Mae cofnodion dilysu mewnol wedi cael eu cyflwyno fel un ffeil i gadarnhau sicrwydd ansawdd ar gyfer Uned 1. | |
| Mae datganiadau ymgeisydd/aseswr wedi'u llofnodi a'u dyddio. **Ni** ddylai datganiad aseswr fod wedi ei lofnodi na'i ddyddio cyn un yr ymgeisydd. | |
| Mae cofnod o oriau wedi'i gwblhau ar gyfer pob Tasg – gall hyn fod yn ddefnyddiol:<br><br>**Taflen gofnodi – Gallwch dreulio tua 20 awr (14 awr ar dasg 1 a 6 awr ar dasg 2)** | |

© WJEC CBAC Ltd.

<table>
<tr><td>
<table>
<tr><th colspan="2">Cofnod o'r oriau a dreuliwyd o'r asesiad di-arholiad.</th></tr>
<tr><td>Tasg</td><td>Dyddiad ac amser a dreuliwyd.</td></tr>
<tr><td>1 (A)</td><td></td></tr>
<tr><td>1 (B)</td><td></td></tr>
<tr><td>1 (C)</td><td></td></tr>
<tr><td>1 (CH)</td><td></td></tr>
<tr><td>1 (D)</td><td></td></tr>
<tr><td>2 (A)</td><td></td></tr>
<tr><td>2 (B)</td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfrif geiriau terfynol – Tasg 1:</td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfrif geiriau terfynol – Tasg 2:</td><td></td></tr>
</table>
</td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfrif geiriau ar waith yr ymgeisydd ar ôl pob cwestiwn.</td><td></td></tr>
<tr><td>Mae gwaith yr ymgeiswyr wedi'i gyflwyno fel un ffeil ar gyfer Tasg 1 ac un ffeil ar gyfer Tasg 2 neu wedi'i gyfuno'n un ffeil (gan gynnwys dalen asesu flaen gyda marciau a datganiadau).<br>Peidiwch ag anfon cwestiynau unigol mewn ffeiliau ar wahân.</td><td></td></tr>
<tr><td>Mae nodiadau dosbarth wedi'u cynnwys ar ôl y ddalen cofnodi oriau.</td><td></td></tr>
<tr><td>Mae anodiadau yn amlwg ar bob cwestiwn i amlygu a chyfiawnhau lle dyfarnwyd marciau.</td><td></td></tr>
</table>

Ar y cyfan, roedd gwaith marcio ar gyfer yr uned yn briodol. Roedd graddio'r ymgeiswyr yn briodol ar y cyfan, ac roedd marciau a ddyfarnwyd yn y band priodol ar y cyfan. Roedd rhai canolfannau wedi rhoi gormod o farciau ar gyfer cwestiynau penodol, yn enwedig Tasg 1 (b). Er mwyn ennill marciau'r bandiau uwch ar gyfer Tasg 1 (b), dylai ymgeiswyr esbonio sut mae disgwyl i'r gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd arddangos a hybu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn eu gwaith, a sut mae hyn o fantais i'r unigolyn y maen nhw'n gweithio gydag ef. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ysgrifennu esboniadau clir ac yn cynnwys enghreifftiau o'r astudiaeth achos benodol a ddewiswyd er mwyn cyrraedd y bandiau uwch. Mae'n bwysig bod yr esboniadau'n benodol i'r gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.

Ar gyfer Tasg 1 (d) roedd llawer o ymgeiswyr yn myfyrio ar y ffordd y gallai gofal a chymorth ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol a chyfathrebu effeithiol. Fodd bynnag, gofynnodd y cwestiwn am fyfyrdod ar y ffordd roedd y dulliau a'r sgiliau yn cael eu defnyddio gan y gweithwyr gofal a chymorth *yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.*

© WJEC CBAC Ltd.

Ar gyfer Tasg 2, roedd cymhwyso'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer priodol at y lleoliad yn yr astudiaeth achos yn ennill marciau uwch; ni ddefnyddiodd rhai ymgeiswyr ddeddfwriaeth berthnasol na pholisïau cenedlaethol mewn perthynas â lleoliadau penodol yr astudiaeth achos a ddewiswyd.

Tasg 1

**(a)** Dylai ymgeiswyr Tasg 1 (a) ddarllen a deall yn llawn fanylion o fewn yr astudiaeth achos wrth gymhwyso egwyddorion gofal; gall fod yn ddefnyddiol i ymgeiswyr dynnu sylw at agweddau allweddol ar yr astudiaeth achos i'w helpu i strwythuro eu hymateb.

Rhoddodd pob ymgeisydd gynnig ar y cwestiwn hwn a dangosodd ymgeiswyr wybodaeth ddai i ragorol am egwyddorion gofal. Rhoddodd yr ymgeiswyr a gafodd farciau uwch ddisgrifiad manwl o ystyr tair egwyddor gofal, gan roi enghreifftiau o sut roedd hyn yn sail i ofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Nid oedd nifer o ymgeiswyr wedi amlinellu egwyddorion gofal penodol ac felly nid oeddent yn rhoi disgrifiad trylwyr, gan ddangos diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth drwyadl. Roedd llai o ddyblygu o ran enghreifftiau ymgeiswyr ar gyfer pob egwyddor gofal yn y gyfres hon. Er y gall egwyddorion gofal fod yn gyfnewidiol, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn defnyddio ystod eang o wahanol enghreifftiau o'r astudiaeth achos.

Dangosodd yr ymgeiswyr a enillodd farciau is ddiffyg ffocws yn eu hatebion neu nad oeddent yn egluro at ba egwyddorion gofal roeddent yn cyfeirio, ac nid oedd rhai ymgeiswyr yn rhoi digon o ddyfnder mewn cysylltiad â'r astudiaeth achos. Nid oedd gan ymatebion rhai ymgeiswyr enghreifftiau penodol o'r astudiaeth achos. Soniodd rhai ymgeiswyr a ddewisodd astudiaeth achos B mai dim ond ‘ar sail angen gwybod’ y dylai gweithwyr rannu gwybodaeth; er y gellid ychwanegu hyn at eu disgrifiad o egwyddor gofal 'cadw cyfrinachedd,' nid oedd hyn yn cael ei ystyried yn enghraifft benodol. Dylai ymgeiswyr ychwanegu manylion drwy nodi'n glir bod "Belinda wedi rhoi gwybod i Miram am ei dyletswydd i roi gwybod am y digwyddiad ac wedi rhoi sicrwydd i Miram mai dim ond ar sail angen gwybod y byddai gwybodaeth yn cael ei rhannu.”

Ffordd ddefnyddiol o fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn fyddai i ymgeiswyr baratoi tri pharagraff, gan gynnwys ym mhob un, ddisgrifiad o'r egwyddor gofal, enghreifftiau o'r astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar yr egwyddor gofal benodol honno ac amlinelliad o sut mae pob enghraifft yn sail i ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

© WJEC CBAC Ltd.

Gweler isod enghraifft o baragraff manwl:

Un egwyddor gofal a oedd yn rhan o'r astudiaeth achos oedd llais, dewis a rheolaeth y cyfeirir ati'n aml pan fydd yr unigolyn yn gwneud dewisiadau drosto'i hun yn seiliedig ar ei anghenion. Mae llais, dewis a rheolaeth yn caniatáu i'r unigolyn fynegi ei anghenion a'i ofynion i eraill y mae'n ymddiried ynddynt. Gall rhai enghreifftiau gynnwys gweithiwr gofal, aelodau o'r teulu, neu ffrind agos. Yn yr astudiaeth achos, mae'r defnydd o lais a rheolaeth yn amlwg pan fydd Belinda yn gofyn a fyddai "hi'n hoffi diod a byrbryd." Mae Miram yn gwrthod y cynnig gan nad oes chwant bwyd arni. Mae hon yn enghraifft dda o lais a rheolaeth gan nad yw'r gweithiwr gofal yn gorfodi Miram i fwyta unrhyw beth er bod gan Miram anhwylder bwyta, gan ddangos bod Belinda yn parchu penderfyniad Miram yn hytrach na mynnu y dylai fwyta rhywbeth. Mae unigolyn sydd â llais a rheolaeth dros ei anghenion nid yn unig yn gwella'r ymddiriedaeth rhwng y gweithiwr gofal a'r unigolyn, ond mae hefyd yn gwella'r gofal personol y mae'n ei gael. Enghraifft arall o hyn yw pan fydd Belinda yn gofyn i Miram beth yw ei hoff ddull o gyfathrebu, ac mae'n ymateb yr hoffai ysgrifennu ei hatebion gan nad yw'n ymwybodol o iaith arwyddion Prydain. Mae'r enghraifft hon yn dangos sut mae grymuso Miram yn hyrwyddo ei llais, ei dewis a'i rheolaeth sy'n hynod fuddiol i'r broses gofal.

**(b)** Roedd yn braf gweld bod y mwyafrif o ymgeiswyr yn gallu rhoi ffyrdd y gall gweithwyr gofal a chymorth ddangos gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Fodd bynnag, nid oedd rhai ymgeiswyr yn rhoi **esboniad** digon manwl, sef y gair gorchymyn a oedd yn cael ei asesu. Dechreuodd rhai ymgeiswyr eu hateb drwy ddiffinio gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a oedd yn arfer da a gosod yr olygfa ar gyfer eu hateb; roedd hyn yn beth braf ac yn ymwneud yn uniongyrchol ag adran 1.5 o'r fanyleb. Roedd y bandiau marciau uwch yn gofyn i ymgeiswyr egluro sut y disgwylir i weithwyr gofal a chymorth ddangos a hyrwyddo dulliau person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a sut y byddent o fudd i'r unigolyn y maent yn ei gefnogi. Llwyddodd rhai ymgeiswyr i gymhwyso disgwyliadau allweddol o ddeddfwriaeth megis y pum egwyddor allweddol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, roedd hyn glodwiw a dylid ei annog ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Nid oedd rhai ymgeiswyr bob amser yn canolbwyntio ar y gweithwyr penodol yn yr astudiaeth achos a oedd yn rhan allweddol o'r cwestiwn hwn. Roedd rhai ymgeiswyr wedi rhoi manteision bras iawn i'r unigolion, a byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai ymgeiswyr wedi nodi sut y byddai'r dull penodol o fudd i iechyd a lles unigolion.

Un ffordd ddefnyddiol i ymgeiswyr fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn fyddai canolbwyntio ar y canlynol yn eu hymateb:

- Esbonio'r term 'gofal o safon' yn rhan gyntaf eu hateb - mae hyn yn gosod yr olygfa ar gyfer eu hateb.
  - Wedyn rhannu eu hateb yn 4-5 adran sy'n canolbwyntio ar y canlynol:
    - Y ffordd y disgwylir i weithwyr ddangos hyn drwy esbonio'r cysyniad allweddol, e.e. diogelu unigolion
    - Esbonio sut y dangosodd y gweithwyr hyn yn yr astudiaeth achos
    - Esbonio beth arall y gallai'r gweithwyr fod wedi'i wneud a'r manteision i iechyd a lles unigolion.

© WJEC CBAC Ltd.

Os bydd ymgeiswyr yn gwneud hyn yn gyson drwy eu hateb cyfan, gallent fodloni elfen fanwl a thrylwyr Band 4.

**(c)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn weddol dda er nad oedd rhai ymgeiswyr bob amser yn canolbwyntio ar yr her y byddai gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ei hwynebu, ac roeddent yn tueddu i ganolbwyntio ar yr heriau yr oedd yr unigolyn sy'n cael ei gefnogi yn eu hwynebu. Llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i nodi dwy her. Nododd ymatebion a gafodd farciau uwch yr her yn llawn ar ddechrau eu hymateb a disgrifiodd pam y byddai hyn yn **her i'r gweithiwr**. Nid oedd rhai ymgeiswyr yn gallu ehangu ar ôl iddynt nodi'r her. Er enghraifft, ar gyfer astudiaeth achos A, nododd rhai ymgeiswyr y gallai'r ffordd yr oedd Marc yn cyfathrebu fod yn her, ond nid oedd rhai yn ehangu ar y rhesymau pam y gallai hyn fod yn her i'r gweithiwr.

Braf oedd gweld bod rhai ymgeiswyr yn gallu disgrifio technolegau a dulliau digidol allweddol o helpu gweithwyr i oresgyn yr heriau a wynebai unigolion sydd â nam ar eu clyw, fel Miram yn astudiaeth achos B. Rhoddodd rhai ymgeiswyr enghreifftiau penodol fel ffonau wedi'u mwyhau, dangosyddion galwadau gweledol, iPad wedi'i fwyhau a Relay UK. Roedd yn arfer da i ymgeiswyr ddefnyddio eu nodiadau dosbarth i ystyried strategaethau penodol y gallai'r gweithiwr eu defnyddio i oresgyn namau ar eu clyw a'u golwg (1.4 o'r fanyleb – cyfathrebu digidol ac 1.5 o'r fanyleb – technolegau a dulliau digidol newydd). Rhestrir **Makaton a Braile** yn y fanyleb ac, fel y cyfryw, byddai'n ddefnyddiol eu harchwilio mewn perthynas â gofynion rhai unigolion yn yr astudiaethau achos. Mae nodiadau dosbarth yn bwysig iawn yn hyn o beth.

Wrth farcio'r cwestiwn hwn, dylai aseswyr nodi'n glir faint o farciau sydd wedi'u rhoi ar gyfer pob her ar wahân, ac yna ddyfarnu marc terfynol. Braf oedd gweld y mwyafrif o ganolfannau yn glynu at hyn.

Roedd yn braf gweld termau mwy arbenigol yn y gyfres hon yn ymwneud â ffyrdd y gallai gweithwyr oresgyn heriau, ond roedd rhywfaint o waith yn generig ac roedd rhai enghreifftiau yn afrealistig, er enghraifft, gallai'r gweithiwr ddefnyddio mwy o weithwyr gofal cymdeithasol, gallai'r llywodraeth ariannu mwy o nyrsys/cyflogi mwy o staff. Dylai ffyrdd realistig o oresgyn yr her fod yn realistig i'r gweithiwr penodol yn yr astudiaeth achos. Nododd rhai ymgeiswyr fod blinder yn her i staff yn astudiaeth achos Marc ond dim ond ymatebion cyfyngedig a roddodd i oresgyn yr her hon, fel 'cyflogi mwy o staff'. Gallai ymateb mwy perthnasol fod wedi cyfeirio at fabwysiadu egwyddorion gofal iechyd darbodus, a datblygu mwy o fyfyrdod ac atebolrwydd yn eu rôl.

**Enghreifftiau o ymatebion cyfyngedig sydd ond yn nodi'r her y gallai'r gweithiwr ei hwynebu:**

`Un her y gallai'r gweithiwr ei hwynebu yn yr astudiaeth achos yw y gallai Marc fod wedi ymddieithrio oddi wrth gymdeithas ac felly efallai fod ganddo bersonoliaeth ymosodol tuag at y gweithwyr.`

© WJEC CBAC Ltd.

**Enghraifft o nodi a disgrifio her mewn ffordd fwy datblygedig.**

```
Un her y gallai'r gweithiwr ei hwynebu yn yr astudiaeth achos yw
y gallai Marc fod wedi ymddieithrio oddi wrth gymdeithas ac
felly efallai fod ganddo bersonoliaeth ymosodol tuag at y
gweithwyr.  Gall hyn beri her i'r gweithwyr oherwydd gallai
rwystro cyfathrebu gan y gallai Marc dynnu'n ôl o drafod ei
anghenion penodol ac u byddai'n rhaid i weithwyr iechyd a gofal
cymdeithasol ddyfalu a yw'r gofal y mae Marc yn ei gael yn
briodol iddo.  Mae'n bosibl mynd i'r afael â hyn drwy ......
```

**(ch)** Fel yn achos y cyfresi diwethaf, dyma un o'r atebion gwannaf ar gyfer Uned 1. Disgwylir i ymgeiswyr ddadansoddi tair egwyddor cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis yng nghyd-destun yr astudiaeth achos. Mae'r gair gorchymyn **'dadansoddi'** yn gofyn i ymgeiswyr archwilio mater yn fanwl. Roedd rhai ymgeiswyr wedi cymysgu'r termau ac wedi ysgrifennu un paragraff lle na thrafodwyd egwyddorion unigol yn ddigon manwl. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gwahanu'r tri therm yn baragraffau ar wahân. Gwnaeth rhai ymgeiswyr hepgor rhai o'r egwyddorion, a olygai na allent gyrraedd y bandiau uwch. Disgwylir hefyd i ymgeiswyr ddadansoddi dulliau moesegol; lle y soniodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr am rai o'r dulliau roedd hyn gul o ran cwmpas ar y cyfan.

Un ffordd ddefnyddiol o wahaniaethu rhwng egwyddorion a dulliau moesegol iechyd yw:

| **Egwyddorion moesegol** | **Dulliau moesegol** |
|---|---|
| Cydraddoldeb | Dyletswydd gofal |
| Amrywiaeth | Dyletswydd gonestrwydd |
| Dewis | Penderfyniadau er budd pennaf |
| | Rheoli cyfrinachedd wrth rannu gwybodaeth, e.e. dilyn GDPR a Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) |
| | Cefnogi llesiant meddwl a llesiant emosiynol |
| | Dilyn fframweithiau moesegol |
| | Rheoli'r ffordd y caiff gwasanaethau ac adnoddau eu dyrannu (drwy egwyddorion gofal iechyd darbodus) |

Wrth ddadansoddi'r egwyddorion a'r dulliau, un ffordd ddefnyddiol o sicrhau dadansoddiad manwl yw bod ymgeiswyr yn disgrifio'r hyn a olygir gan yr egwyddor neu'r dull, trafod hyn o ran sut y cafodd ei chymhwyso neu ei gymhwyso yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd a llunio barn ynghylch sut mae'n effeithio ar ofal person-ganolog yn gadarnhaol ac yn negyddol.

© WJEC CBAC Ltd.

**(d)** Ar y cyfan, atebwyd y cwestiwn hwn yn dda. Roedd y bandiau uwch yn gofyn i ymgeiswyr fyfyrio ar gyfathrebu effeithiol a pherthnasoedd cadarnhaol/ymddiriedaeth ar wahân. Roedd adroddiadau a oedd yn myfyrio ar y rhain gyda'i gilydd yn tueddu i golli ffocws a chyfeiriad ac felly dyfarnwyd marciau is iddynt. Rhoddodd ymatebion a gafodd farciau uwch fyfyrdodau mwy eglur ar y sgiliau a'r dulliau a ddefnyddir gan y gweithwyr fel y dangosir yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd. Gwnaeth atebion mewn bandiau is ond amlinellu sut y gellid dangos cyfathrebu effeithiol a pherthnasoedd cadarnhaol yn yr astudiaeth achos **heb drafod y sgiliau/sut y defnyddiwyd y rhain gan weithwyr**. Gwnaeth rhai ymgeiswyr gamddarllen y cwestiwn a rhoi disgrifiad cyffredinol o'r hyn a olygir gan berthnasoedd cadarnhaol/cyfathrebu effeithiol, heb fyfyrio ar y ffordd y cafodd y rhain eu defnyddio/dangos yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd, ac felly ni wnaethant fodloni'r gofynion ar gyfer band 2 o ran 'rhai casgliadau' a 'rhywfaint o werthuso' a ddefnyddiwyd gan y gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.

Braf oedd gweld bod rhai ymgeiswyr yn gallu bodloni gofynion y cwestiwn yn llawn a myfyrio ar y dulliau a'r sgiliau a ddefnyddiwyd. Ar gyfer astudiaeth achos B, roedd rhai ymgeiswyr wedi llwyddo i nodi bod deall yr amgylchedd y mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfathrebu ynddo yn hynod bwysig wrth gyfathrebu â Miram gan fod ganddi nam ar ei chlyw. Byddai gweithwyr sy'n deall yr amgylchedd yn galluogi Miram i glywed yn llawn yr hyn a olygir ac a awgrymir gan y byddai sŵn/gwrthdyniadau allanol yn cael eu lleihau. Ar gyfer astudiaeth achos A, roedd ymgeiswyr bandiau uwch yn gallu myfyrio ar yr amgylchedd yr oedd y gweithwyr yn cyfathrebu ynddo trwy sicrhau bod pawb yn eistedd mewn cylch ac felly'n dileu unrhyw rwystrau. Mae ystyriaethau amgylcheddol yn hynod bwysig i weithwyr wrth gyfathrebu ag unigolion sy'n cael gofal a chymorth ac mae hyn yn cael ei bwysleisio yn adran 1.4 o'r fanyleb: 'deall yr amgylchedd wrth gyfathrebu ag unigolion i sicrhau gofal person-ganolog'.

Gallai hyrwyddo gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn trwy fynd i'r afael ag anghenion cyfathrebu penodol unigolion drwy'r amgylchedd ymwneud â lleoliadau yn yr astudiaethau achos, er enghraifft, ystafell, seddi, lefelau sŵn, goleuadau, gofod, amser a thymheredd**.** Roedd atebion ymgeiswyr mewn bandiau uwch yn gallu myfyrio ar hyn mewn perthynas â'r astudiaeth achos a ddewiswyd eleni.

**Tasg 2**

**(a)** Dyfarnwyd marciau bandiau uwch i ymgeiswyr a ddangosodd ddealltwriaeth ragorol o ddeddfwriaeth yn eu geiriau eu hunain ac a allai amlinellu sut roedd hyn yn ymwneud â gofal person-ganolog, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn yr astudiaeth achos. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn diffinio cysyniadau allweddol hanfodol yn llawn o ystod o wahanol ddeddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol ac nad ydynt yn canolbwyntio ar ddeddfwriaeth yn unig. Dylai ymgeiswyr fyfyrio ar ddeddfwriaeth gymwys a pholisïau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r astudiaeth achos a ddewiswyd ganddynt, er enghraifft, rhoddodd rhai ymgeiswyr amlinelliad bras o ystod dda, ond nid oedd pob un yn berthnasol i'r lleoliad a ddewiswyd yn yr astudiaeth achos.

© WJEC CBAC Ltd.

Yn astudiaeth achos A, rhoddwyd pwyslais ar y cartref gofal preswyl y symudodd Marc iddo ar ôl cael ei ryddhau o'r ysbyty. Fel y cyfryw, braf oedd gweld ymgeiswyr yn mynd i'r afael â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Gwnaeth rhai ymgeiswyr hepgor y ddeddfwriaeth hon a oedd yn allweddol i'r astudiaeth achos. Un ddolen ddefnyddiol ar gyfer y ddeddfwriaeth hon yw:- https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/hyb-gwybodaeth-a-dysgu/rheoleiddio-ac-arolygu/trosolwg Dylid rhoi'r ddolen hon i ymgeiswyr a gellid eu hannog i lunio diagram corryn gyda'r rheswm dros ei chyflwyno, cysyniadau allweddol o'r ddeddfwriaeth, sut mae'n cael ei chymhwyso mewn lleoliadau penodol a sut mae'n ysgogi gofal person-ganolog.

**(b)** Roedd y mwyafrif o ymgeiswyr yn gallu sgorio o leiaf hanner marciau ar gyfer y cwestiwn hwn. Braf oedd gweld rhai ymatebion ymgeiswyr uwch yn nodi, am fod Belinda yn rheolwraig, y byddai'n cael ei harwain gan y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol (Adran 7 yn benodol) neu'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru neu'r Cod Ymarfer Proffesiynol i Gyflogwyr Gofal Cymdeithasol.

Yn astudiaeth achos A, braf oedd gweld ymatebion ymgeiswyr uwch yn nodi ystod eang o godau ymarfer proffesiynol/ymddygiad gan fod yr ystod o weithwyr a nodwyd yn y lleoliad yn cynnwys nyrs, gweithiwr cymdeithasol a meddyg. Gwelwyd arfer da mewn rhai ymatebion a oedd yn crynhoi rôl y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), y cod a osodwyd gan yr NMC (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth) a'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol, yr oedd pob un ohonynt yn berthnasol i'r astudiaeth achos hon. **Dylid annog ymgeiswyr i uwcholeuo a thanlinellu enwau'r gweithwyr yn y lleoliad** ac yna ddefnyddio ffynonellau dibynadwy o'r rhyngrwyd i ymchwilio i'r codau ymarfer neu ymddygiad proffesiynol priodol.

Methodd ymgeiswyr mewn bandiau is â nodi'n glir y codau ymarfer neu ymddygiad proffesiynol sy'n rhoi arweiniad i weithwyr iechyd a gofal yn yr astudiaeth achos dan sylw, ac felly roeddent yn dangos diffyg dealltwriaeth. Mae'n bwysig cynnwys cyd-destun yn y dasg, sef darparu gwybodaeth i staff sy'n newydd ddechrau gweithio yng Nghymru, felly byddai'n bwysig i staff newydd wybod union enw'r codau ymarfer neu ymddygiad proffesiynol penodol sy'n berthnasol o ran rhoi arweiniad i'r gweithwyr yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.

Dyfarnwyd marciau band uwch i ymgeiswyr a enwodd ac a amlinellodd y codau ymarfer / ymddygiad proffesiynol perthnasol a oedd yn berthnasol i'r gweithwyr iechyd a gofal yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd, gofynion cofrestru'r gweithwyr hyn, a sut y gellid cymhwyso'r rhain yn ymarferol fel canllawiau. Braf oedd gweld ymwybyddiaeth o'r cyrff rheoleiddio sy'n pennu'r gofynion cofrestru ar gyfer y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol penodol yn atebion rhai ymgeiswyr.

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 3**

**Haf 2024**

**UNED 2: FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR DWF A DATBLYGIAD UNIGOLION AR BOB CAM O'R RHYCHWANT OES**

**Trosolwg o'r Uned**

**Ar gyfer 2.1 (ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes)** roedd nifer o bynciau gwahanol yn cael eu trafod, megis pwysigrwydd statws economaidd ar dwf a datblygiad, a disgrifio newidiadau sy'n digwydd ymhlith dynion yn ystod llencyndod. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar dwf a datblygiad a'u heffeithiau cadarnhaol, negyddol a hirdymor posibl. Roedd rhai ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd defnyddio rhai termau allweddol, fel 'statws economaidd.'

**Ar gyfer 2.2 (modelau sy'n ymwneud â ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad ar bob cam o'r rhychwant oes)** y modelau allweddol a aseswyd yn ystod y gyfres hon oedd: Gesell, Erikson, natur yn erbyn magwraeth, Bowlby a Bandura. O ran damcaniaethau, mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cysyniadau sylfaenol ar gyfer pob damcaniaeth.

Ar gyfer y cwestiynau 2.2, roedd ymgeiswyr yn gyffredinol yn darparu rhywfaint o wybodaeth, ond nid oedd unrhyw ddatblygiad yn eu hatebion, e.e. diffyg cysyniadau allweddol, neu fethu â datblygu eu hymatebion o ran cwestiynau AA3. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o gryfderau a gwendidau'r gwahanol fodelau.

Ar gyfer 2.3 (dulliau o hyrwyddo a diogelu gwydnwch) roedd y prif gwestiwn yn gofyn i ymgeiswyr egluro un dull, ac eithrio adnoddau cymunedol, y gellid ei ddefnyddio i hyrwyddo gwydnwch Fara. Roedd yn bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gwahanol ddulliau gweithredu megis cael unigolion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles corfforol eu hunain trwy wneud dewisiadau ffordd o fyw, hyrwyddo dull cadarnhaol sy'n datrys problemau a hyrwyddo amgylcheddau cadarnhaol sy'n edrych i'r dyfodol ac sy'n hyrwyddo cryfderau ac amrywiaeth.

Roedd yr ymgeiswyr yn ymwybodol o fanteision gwydnwch, ond yn aml nid oeddent yn gallu ehangu ar y dull gweithredu.

- Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r adnoddau cymunedol sydd ar gael i unigolion gan fod hon yn adran allweddol o fanyleb 2.1. Un ffordd ddefnyddiol i ymgeiswyr archwilio hyn yw drwy fapio adnoddau yn eu cymuned leol eu hunain ac esbonio'r manteision o ran cymorth i hyrwyddo twf a datblygiad hirdymor, a gwydnwch.
- Argymhellir dechrau addysgu Damcaniaeth Seicogymdeithasol Erikson ar ddechrau'r uned, ochr yn ochr ag addysgu'r gwahanol agweddau ar ddatblygiad ar bob cam o'r rhychwant oes. Trwy wneud hyn, gall ymgeiswyr gymhwyso damcaniaeth Erikson at wahanol feysydd ar bob cam o'r rhychwant oes. Argymhellir yn gryf fod ymgeiswyr yn cael eu cyfeirio at Bennod 6, Patel, M (CBAC 2022) Cydymaith Cwrs Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol (ISBN – 978-1-86085-753-9) tudalennau 118-123 gan ei bod yn rhoi trosolwg o Ddamcaniaeth Erikson ar bob cam o'r rhychwant oes sy'n dadansoddi cysyniadau sylfaenol allweddol.

© WJEC CBAC Ltd.

- Dylid annog ymgeiswyr i ystyried agweddau cadarnhaol a negyddol ar ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol ar bob cam o'r rhychwant oes (2.1).
- Dylid sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng y berfau gorchymyn: er enghraifft, mae 'esbonio' yn gofyn am ehangu rhesymegol neu gyfiawn, yn dilyn adnabyddiaeth neu bwynt disgrifiadol syml.
- Dylid annog ymgeiswyr i ddefnyddio uwcholeuydd i ddewis geiriau allweddol yn y cwestiwn. Byddai hyn wedi bod o fudd i ymgeiswyr yng nghwestiwn 7a drwy uwcholeuo 'trafodwch', 'manteision', 'unigolion yn ystod oedolaeth ddiweddarach' a 'gweithgareddau therapiwtig a hamdden.' Mae'r arweiniad i'r arholiad a ddarperir gan CBAC yn pwysleisio pwysigrwydd hyn ochr yn ochr ag awgrymiadau defnyddiol eraill.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1 (a)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn weddol dda ac roedd y mwyafrif o ymgeiswyr yn gallu nodi cam bywyd Kyle fel plentyndod. Nid oedd rhai ymgeiswyr wedi rhoi enw llawn y cam bywyd, gan nodi 'plant, plentyn, neu gyn arddegau' ac roedd lleiafrif bach wedi drysu rhwng plentyndod a glasoed. Mae'n bwysig, os gofynnir cwestiwn 'galw i gof' i ymgeiswyr ar y camau bywyd eu bod yn defnyddio'r oedrannau a'r termau sydd yn y fanyleb.

**(b)** Roedd y mwyafrif o ymgeiswyr yn gallu datgan bod symud i ofal preswyl yn ddigwyddiad bywyd anrhagweladwy. Dylid annog ymgeiswyr i ddeall y gwahaniaeth rhwng digwyddiadau bywyd rhagweladwy ac anrhagweladwy, er enghraifft, digwyddiadau bywyd anrhagweladwy yw digwyddiadau sy'n digwydd heb rybudd neu ddigwyddiadau na fyddai disgwyl iddynt ddigwydd i bob unigolyn.

**(c)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn weddol dda gan fwyafrif o'r ymgeiswyr. Enillodd ystod eang o ymgeiswyr farciau uchel am grynhoi sut y gallai anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASD) ymddangos mewn unigolyn. Y prif reswm pam na wnaeth rhai ymgeiswyr sgorio'r uchafswm marciau oedd nad oeddent yn gallu rhoi ystod eang o *wahanol ffyrdd*. Nid oedd yn rhaid i ymgeiswyr fod yn fanwl yn eu hatebion ond roedd angen iddynt ddangos ystod eang o'r prif bwyntiau. Gwnaeth rhai ymgeiswyr ailadrodd eu pwyntiau ac ni chawsant farciau am bwyntiau ailadroddus. Braf oedd nodi bod rhai ymgeiswyr wedi defnyddio terminoleg briodol fel ysgogi, problemau di-eiriau, diffyg empathi a phroblemau synhwyraidd. Pan ddywedodd ymgeiswyr fod 'effaith ar ymddygiad mewn unigolion ag ASD', barnwyd bod hyn yn rhy amwys; byddai angen i ymgeiswyr ddatgan 'ymddygiad sy'n herio.'

**(ch)** Roedd y mwyafrif o ymgeiswyr yn gallu sgorio marciau am y cwestiwn hwn. Disgrifiodd ystod eang o ymgeiswyr ffactorau a allai effeithio ar rieni Kyle am ei fod yn blentyn ag anhwylder sbectrwm awtistig (ASD). Fodd bynnag, nid oedd rhai ymgeiswyr yn mynd i'r afael â'r **effaith hirdymor**, er enghraifft, nododd rhai ymgeiswyr, oherwydd bod angen cymorth 24 awr ar Kyle, y gallai hyn achosi problemau gyda swyddi i'w rieni, ond yna gwnaethant fethu â disgrifio effaith hirdymor hyn arnynt, e.e. gallai hyn arwain at golli swyddi posibl, gan olygu eu bod yn colli hunanhyder neu'n mynd i ddyled o bosibl. Roedd ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau uchaf yn gallu disgrifio ystod eang o ffactorau a allai effeithio ar rieni â phlentyn ag ASD ac effaith hirdymor y ffactorau hyn.

© WJEC CBAC Ltd.

**(d)** Ar y cyfan, roedd ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd llunio ymatebion a oedd yn cyrraedd y band marciau uchaf ar y cwestiwn hwn. Roedd rhai ymgeiswyr wedi trafod cwestiwn natur yn erbyn magwraeth yn gyffredinol, nad oedd yn rhan o'r cwestiwn. Pan nododd ymgeiswyr ddadl Gesell y gellid priodoli datblygiad y plentyn i natur, rhoddwyd marc. Roedd ymgeiswyr a enillodd farciau uwch yn gallu archwilio cysyniadau allweddol megis aeddfedu, normau etifeddol a datblygiadol sy'n cael eu pennu'n enetig. Roedd ymgeiswyr a oedd yn gallu trafod yr agweddau cadarnhaol a negyddol ar ddamcaniaeth Gesell yn gallu bodloni'r gair gorchymyn 'trafod' yn llawn.

**Cw.2** **(a)** Ni ddarllenodd llawer o ymgeiswyr y cwestiwn yn ofalus ac roedd eu hymatebion yn ymwneud ag effeithiau cael anhwylder bwyta neu'n enwi anhwylderau bwyta. Dylai ymgeiswyr fod wedi nodi'r ffactorau risg posibl ar gyfer datblygu anhwylder bwyta fel problemau iechyd meddwl neu hunanddelwedd wael.

**(b)** Sgoriodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr rai marciau am y cwestiwn hwn. Esboniodd rhai ymgeiswyr yn fanwl ystod o ffyrdd y gallai gweithwyr iechyd proffesiynol eu defnyddio i roi sicrwydd a sut y gallai sicrwydd gefnogi Fara. Nid oedd rhai ymgeiswyr yn gallu esbonio ystod o ffyrdd neu nid oeddent wedi esbonio eu pwyntiau mewn unrhyw fanylder, er enghraifft, nodi y gallai gweithwyr gyfeirio Fara at wasanaethau cwnsela a'i hysbysu am y gwasanaeth ond heb egluro sut y byddai hyn yn cefnogi Fara.

**(c)** Ar y cyfan, roedd y mwyafrif o ymgeiswyr yn gallu nodi ac, yn rhannol, esbonio adnoddau cymunedol a allai gefnogi datblygiad hirdymor Fara. Esboniodd rhai ymgeiswyr adnoddau cymunedol yn glir ond nid oeddent yn canolbwyntio ar y manteision posibl i ddatblygiad hirdymor Fara. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r adnoddau cymunedol sydd ar gael yn ardal leol unigolyn i gefnogi datblygiad hirdymor.

**(ch)** Esboniodd rhai ymgeiswyr sut y byddai diogelu gwydnwch o fudd i unigolion. Fodd bynnag, nid oedd ymgeiswyr ar y cyfan yn gallu datblygu eu hesboniad **heblaw am adnoddau cymunedol**, a olygai nad oedd ymgeiswyr wedi darllen y cwestiwn yn ofalus. Argymhellir y dylai ymgeiswyr danlinellu agweddau allweddol ar y cwestiwn.

**Cw.3** Yn gyffredinol, ni chafwyd atebion da i'r cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif o ymgeiswyr yn gallu esbonio effaith sefyllfa Ceri ar ei hiechyd a'i lles. Fodd bynnag, roedd gan rai ddiffyg gwybodaeth am Ddamcaniaeth Seicogymdeithasol Erikson ac nid oeddent yn gallu ennill marciau uwch gan nad oedd ymatebion yn cynnwys gwybodaeth am ei ddamcaniaeth. Rhoddodd rhai ymgeiswyr atebion cyffredinol fel 'mae Erikson yn dadlau od unigolion yn datblygu drwy gamau' heb roi cyfeiriad clir ac uniongyrchol at y cam y byddai Ceri wedi ei gyrraedd, Cynyrchioldeb yn erbyn Marweidd-dra. Argymhellir, pan fydd ymgeiswyr yn dysgu am gamau allweddol datblygiad, y cyfeirir at ddamcaniaeth Erikson er mwyn iddynt gynefino â'i ddamcaniaeth. Gallai ymgeiswyr a oedd yn gallu cyrraedd y bandiau uwch ystyried Cynyrchioldeb yn erbyn Marweidd-dra a chysylltu hyn â sefyllfa Ceri. Ychydig iawn o ymgeiswyr oedd yn gallu ystyried y rhinwedd y byddai Ceri yn ei chyflawni pe bai unigolyn yn llwyddo i fynd drwy'r cam hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.4** **(a)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda gyda nifer o ymgeiswyr yn sgorio'r uchafswm marciau. Roedd yn braf gweld ymgeiswyr yn mynd i'r afael â'r cwestiwn ac yn rhoi ymatebion llawn yn unol â'r ferf asesu ‘amlinellwch.’ Roedd yn dda gweld rhai ymgeiswyr yn cysylltu ymatebion yn uniongyrchol â sefyllfa Jade, fel y posibilrwydd y byddai'n mynd trwy gemotherapi a'r effeithiau fel colli gwallt neu fron a allai arwain at hunanhyder isel neu ofni sut y byddai unigolion eraill yn ei chanfod. Nid oedd lleiafrif o ymgeiswyr yn gallu ehangu ar eu hamlinelliad a dim ond nodi rheswm fel 'mae Jade yn poeni y byddai'r canser yn dychwelyd'. Roedd angen i ymgeiswyr roi manylion cryno i'r ateb hwn. Roedd lleiafrif o ymgeiswyr yn codi rhesymau o fonyn y cwestiwn, heb fynd i'r afael â'r ferf asesu ‘amlinellwch’, er enghraifft, byddai lleiafrif o ymgeiswyr yn datgan mai'r rheswm pam y gallai deimlo'n bryderus yw 'ei chanser'. Nid amlinellu yw hyn a dylai ymgeiswyr fod yn glir y gallai fod yn bryderus **oherwydd y pryder** am y canser.

**(b)** Roedd yn amlwg bod y mwyafrif o ymgeiswyr yn ymwybodol o'r hyn a olygwyd gan ddatblygiad emosiynol a chymdeithasol. Roedd rhai ymgeiswyr yn defnyddio'r termau gyda'i gilydd, er y gallant fod yn gyfnewidiol. Roedd yn bwysig bod ymgeiswyr yn gwahaniaethu rhwng termau yn eu hateb er mwyn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r ffordd y gallai pryder Jade effeithio ar ei datblygiad cymdeithasol **ac** emosiynol hirdymor. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi nodi'n gywir y gallai Jade fynd yn isel ei hysbryd, ond, nid oedd rhai ymgeiswyr yn esbonio'r pwynt hwn na sut y gallai effeithio ar ei datblygiad cymdeithasol ac emosiynol hirdymor. Roedd ymgeiswyr a enillodd farciau uwch yn gallu rhoi ystod eang o gysyniadau wrth esbonio eu hateb fel ynysu cymdeithasol, anawsterau cyfathrebu, dibyniaeth ar eraill, iselder, hunan-barch is, gwell gwydnwch emosiynol, deallusrwydd emosiynol.

**(c)** Ar y cyfan, enillodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr farciau am y cwestiwn hwn ond nid oedd ymatebion yn cynnwys esboniad mewn perthynas â phwysigrwydd statws economaidd ar dwf a datblygiad yn ystod oedolaeth. Y tri therm allweddol oedd 'statws economaidd', 'twf/datblygiad' ac 'oedolaeth.' Gwnaeth rhai ymgeiswyr gamddarllen y cwestiwn gan gysylltu eu hymateb ag effaith statws economaidd ar blentyndod. Gwnaeth llawer o ymgeiswyr ond rhoi sylw bras i oedolaeth a statws economaidd gan ysgrifennu am ddatblygiad yn unig. Roedd yn bwysig i ymgeiswyr gysylltu'r cyfan, er enghraifft, roedd ymgeiswyr a oedd yn canolbwyntio ar ystod o feysydd fel tai, deiet a mynediad at wasanaethau iechyd yn gallu egluro eu pwyntiau mewn perthynas ag oedolaeth ac effaith statws economaidd ar dwf a datblygiad. Roedd hefyd yn bwysig i ymgeiswyr ganolbwyntio ar dwf **a** datblygiad er mwyn cyrraedd y band uchaf.

Mae'r canlynol yn enghraifft o esboniad datblygedig sy'n canolbwyntio ar dwf a'r agwedd gorfforol ar ddatblygiad:

Gall incwm da fel cyflog mawr fel oedolyn arwain at **ddeiet mwy cytbwys ac iach** <u>gan y gall yr unigolion fforddio coginio prydau o'r dechrau am eu bod yn gallu fforddio prisiau cynhwysion o ansawdd uchel sy'n costio mwy yn gyffredinol</u>, sy'n golygu eu bod yn llai tebygol o gael diabetes neu fynd yn ordew a allai gael effaith negyddol ar eu twf corfforol.

© WJEC CBAC Ltd.

Byddai rhai ymgeiswyr yn colli'r pwyntiau a danlinellwyd. Byddent yn dangos rhywfaint o wybodaeth am gyflog mawr a'r cysylltiad â deiet mwy cytbwys ac iach ond heb esbonio'r cysylltiad yn fanwl. Dylai ymatebion i gwestiynau 'esboniwch' ddarparu manylion a rhesymau ynglŷn â sut a pham mae rhywbeth fel y mae. Mae'r cynllun marcio yn ganllaw defnyddiol yma ar gyfer cwestiynau yn y dyfodol ar ffactorau economaidd.

**Cw.5 (a)** Gallai'r mwyafrif o ymgeiswyr wahaniaethu rhwng y termau natur a magwraeth yn y cwestiwn hwn, ond, gwnaeth rhai ymgeiswyr gopïo o fonyn y cwestiwn ac felly nid oeddent yn gallu disgrifio nodweddion allweddol natur a magwraeth gan ddefnyddio'r wybodaeth uchod, fel yr oedd yn ofynnol. Roedd lleiafrif o ymgeiswyr wedi drysu rhwng y termau natur a magwraeth. Roedd ymgeiswyr a enillodd farciau uwch yn gallu diffinio termau allweddol yn gywir a chymhwyso gwybodaeth gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd. **Ni ddefnyddiodd** rhai ymgeiswyr unrhyw wybodaeth o'r bonyn, y gofynnwyd iddynt wneud hynny yn y cwestiwn.

**(b)** Rhoddodd y mwyafrif o ymgeiswyr ystod eang o newidiadau corfforol sy'n digwydd mewn dynion yn ystod y glasoed er bod y cwestiwn yn gofyn am ddisgrifiad ac, fel y cyfryw, roedd yn bwysig bod ymgeiswyr yn ehangu ar y newidiadau corfforol, er enghraifft, dywedodd rhai ymgeiswyr y byddai lleisiau gwrywod yn newid ac yna nid oeddent yn esbonio eu pwynt y gallai lleisiau gwrywod fynd yn ddyfnach oherwydd y newidiadau yn y laryncs. Ni ddarllenodd lleiafrif bach o ymgeiswyr y cwestiwn, gan ateb y cwestiwn yn seiliedig ar ddynion yn ystod oedolaeth ddiweddarach neu fenywod.

**(c)** Yn gyffredinol, gallai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr ddatgan bod perthnasoedd yn ystod plentyndod cynnar rhwng plentyn a gofalwr yn hynod bwysig, a chyfeiriodd rhai at bwysigrwydd y berthynas rhwng yr efeilliaid gan gyfeirio at Ddamcaniaeth Ymlyniad Bowlby. Ysgrifennodd rhai ymgeiswyr ymatebion archwiliedig gan ddefnyddio cysyniadau allweddol Bowlby fel 'cyfnod tyngedfennol', 'monotropi' a 'seicopathi dideimlad.' Braf hefyd oedd gweld rhai ymgeiswyr yn cyfeirio at yr astudiaeth o 44 o Ladron i bwysleisio pwysigrwydd perthnasoedd yn ystod plentyndod cynnar yn ôl Bowlby. Yr ymgeiswyr a enillodd y marciau uchaf yn y bandiau oedd y rhai a lwyddodd i archwilio trwy ddefnyddio ystod o gysyniadau allweddol o Ddamcaniaeth Bowlby, gan sôn hefyd am gryfderau a gwendidau damcaniaeth Bowby; Byddai hyn yn bodloni'r gair gorchymyn asesu 'archwiliwch' yn llawn.

**Cw.6 (a)** Enillodd ystod eang o ymgeiswyr farciau am y cwestiwn, gyda'r mwyafrif o ymgeiswyr yn dangos ymwybyddiaeth sylfaenol o'r term 'hyfforddiant sgiliau cymdeithasol' **(SST)**. Fodd bynnag, gan fod y cwestiwn yn werth 3 marc, disgwylid i ymgeiswyr ehangu ar yr ystyr a bodloni'r gair gorchymyn asesu 'disgrifiwch' yn llawn i ddisgrifio prif nodweddion hyfforddiant SST. Dyfarnwyd un marc i ymgeiswyr a roddodd ystyr craidd megis 'hyfforddiant i gefnogi unigolion mewn sefyllfaoedd cymdeithasol'; roedd ymgeiswyr a aeth yn eu blaen i ehangu ar hyn trwy ddisgrifio dwy nodwedd arall megis, er enghraifft, manteision hyfforddiant SST, lle gellir darparu SST neu unigolion a allai fod angen cael hyfforddiant SST, yn gallu ennill yr uchafswm marciau.

© WJEC CBAC Ltd.

**(b)** Gwnaeth y mwyafrif o ymgeiswyr ddisgrifio ac egluro effaith gadarnhaol bod yn rhan o deulu ar ddatblygiad cymdeithasol plentyn. Ni wnaeth rhai ymgeiswyr esbonio'r effaith gadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol y plentyn. Braf oedd gweld rhai ymgeiswyr yn gwneud cysylltiadau synoptig ac ymhlyg â modelau seicolegol fel Bandura, Maslow a Bronfenbrenner er nad oedd angen gwneud hyn; dangosodd hyn fwy o wybodaeth a dealltwriaeth yn eu hymatebion. Ychydig o'r ymgeiswyr oedd yn gallu egluro'n llawn ystod o effeithiau cadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol plentyn; yr allwedd i'r cwestiwn hwn oedd eglurhad manwl, gan roi rhesymau pam y byddai teulu yn gadarnhaol ar gyfer datblygiad cymdeithasol y plentyn. Dywedodd rhai ymgeiswyr y byddai rhieni'n fodel rôl, ond methwyd ag egluro pam y byddai hyn yn cefnogi datblygiad cymdeithasol y plentyn, neu wedi gwneud datganiad fel 'mae plant yn debygol o fod yn well mewn sefyllfaoedd cymdeithasol gan y gallai fod ganddynt frodyr a chwiorydd heb esbonio 'pam,' sy'n agwedd allweddol mewn ymateb i gwestiwn egluro.

**(c)** Braf oedd gweld bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn ymwybodol bod ymddygiad plant yn cael ei gaffael o'u hamgylchedd, gan ddangos rhywfaint o wybodaeth am ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura. Braf oedd gweld y gallai ymgeiswyr egluro eu hymatebion trwy ddefnyddio rhai enghreifftiau i ategu eu pwyntiau. Roedd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau uchaf yn defnyddio cysyniadau allweddol o ddamcaniaeth Bandura wrth drafod sut mae ymddygiad yn cael ei gaffael, megis arbrawf dol bobo, atgyfnerthu, atgyfnerthu dirprwyol, modelu rôl, dynwared, arsylwi, cofio, atgynhyrchu; a rhoddwyd marciau am bob un o'r rhain. Mae'n bwysig ar gyfer cwestiwn trafod fod ymgeiswyr yn gwneud mwy na rhestru pwyntiau; nododd rhai ymgeiswyr fod plant yn dysgu o'u hamgylchedd a bod hyn yn cael ei weld yn yr arbrawf dol bobo ond nid aethant yn eu blaen i drafod beth oedd arbrawf Bandura; anogir ymgeiswyr i ddysgu'r cysyniadau allweddol sylfaenol pwysig o fodelau seicolegol.

**Cw.7 (a)** Dangosodd rhai ymgeiswyr rywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o fanteision annog unigolion yn ystod oedolaeth ddiweddarach i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau therapiwtig a hamdden. Yr allwedd i'r cwestiwn hwn oedd canolbwyntio ar y manteision i unigolion yn ystod **oedolaeth ddiweddarach**. Roedd rhai ymatebion yn gyfyngedig o ran trafodaeth am eu bod yn rhoi rhestr neu ddisgrifiad sylfaenol o fanteision, heb eu trafod mewn perthynas ag unigolion **yn ystod oedolaeth ddiweddarach**. Braf oedd gweld bod rhai ymgeiswyr yn rhoi enghreifftiau priodol o weithgareddau therapiwtig a hamdden y gallai unigolion yn ystod oedolaeth ddiweddarach ymgymryd â nhw a pham y byddai'r rhain yn fuddiol. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu cyflwyno damcaniaeth ymddieithrio Cumming a Henry a thrafod y ddamcaniaeth hon mewn perthynas â'r rheswm pam y byddai annog gweithgareddau yn ystod oedolaeth ddiweddarach yn atal ymddieithrio yn ystod oedolaeth ddiweddarach. Roedd ymgeiswyr a drafododd ystod o wahanol fanteision gweithgareddau therapiwtig a hamdden sy'n addas i unigolion yn ystod oedolaeth ddiweddarach yn gallu ennill marciau yn y bandiau uchaf. Mewn cyfresi yn y dyfodol dylid annog ymgeiswyr i dynnu sylw at eiriau allweddol yn y cwestiwn er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio eu hateb mewn ffordd strwythuredig, sy'n agwedd allweddol ar unrhyw gwestiwn trafod.

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 3**

**Haf 2024**

**UNED 3: HYBU HAWLIAU UNIGOLION AR BOB CAM O'R RHYCHWANT OES**

**Trosolwg o'r Uned**

- Yn y gyfres hon o Uned 3, dangosodd y Canolfannau a'r ymgeiswyr hyder ac eglurder wrth fynd i'r afael â'r dasg asesu di-arholiad. Gwnaeth yr ymgeiswyr greu a chyflwyno cyflwyniadau da; gan fewnbynnu delweddau, pontio rhwng sleidiau, cynhyrchu trosleisio, yn ogystal â chanolbwyntio ar ddyluniad y sleidiau, a oedd yn glodwiw.
- Roedd llawer o'r ymgeiswyr wedi dewis grwpiau o unigolion yn uniongyrchol o'r fanyleb. Rhoddodd y dull hwn gyfle i ymgeiswyr ganolbwyntio ar amcanion yr asesiad a mynd i'r afael â'r dasg yn llawn, gan eu galluogi i fodloni'r meini prawf AA a chyrraedd bandiau marciau uwch. Dyfarnodd canolfannau farciau a oedd yn adlewyrchu'r gwahaniaeth clir rhwng ymgeiswyr a oedd wedi'u paratoi'n dda a'r rhai yr oedd angen iddynt baratoi ymhellach i roi cynnig ar y  dasg a'i chwblhau'n llawn.
- Cyflwynwyd cyflwyniadau mewn amrywiaeth o fformatau a chyfuniadau gwahanol; sleidiau PowerPoint a throsleisio a oedd yn tueddu i gael eu recordio'n uniongyrchol ar PowerPoint, yn ogystal â sgriptiau wedi'u teipio a fideos o gyflwyniadau. Croesawyd yr holl fformatau a'r cyfuniadau hyn gan y cymedrolwyr am eu bod yn cyflawni'r briff o 'gynhyrchu podlediad, cyflwyniad neu fideo’.
- Os yw Canolfannau yn dyfarnu marciau uwch, disgwylir bod digon o dystiolaeth i gefnogi hyn, gan ei bod yn anodd cymedroli os nad yw'r gwaith yn cefnogi'r marciau a ddyfarnwyd. Er enghraifft, roedd achosion pan wnaed sylwadau ar waith ymgeisydd yn nodi bod pwynt a wnaeth ymgeisydd wedi cael ei drafod ymhellach yn ystod y cyflwyniad yn yr ystafell ddosbarth. Byddai'r cymedrolwr yn disgwyl y byddai fideo neu droslais o'r cyflwyniad yn cael ei gynnwys ym mhortffolio uned 3 yr ymgeisydd i gefnogi'r marciau a ddyfarnwyd ymhellach.
- O ran gweinyddu, roedd Canolfannau fel arfer yn cwblhau ac yn uwchlwytho'r gwaith yn gywir. Fodd bynnag, argymhellir y dylid cydgrynhoi ffeiliau a'u huwchlwytho ar ffurf cyn lleied o ddogfennau â phosibl er mwyn hwyluso'r broses gymedroli. Yn ogystal, cyn uwchlwytho gwaith i Surpass, mae'n hanfodol nodi'r dosbarthiad marciau ar gyfer cwestiynau (b ac d) ar y ddalen flaen ac yng ngwaith yr ymgeisydd. Mae hyn yn cyfeirio'r cymedrolwr at ble mae'r marciau wedi'u dyfarnu a'r rhesymau drostynt.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

a. Ymatebodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn effeithiol i'r cwestiwn hwn, gan gydbwyso'n fedrus y drafodaeth ar brif anghenion a hawliau ochr yn ochr â gofynion gofal a chymorth y grŵp a ddewiswyd. Roedd eu hymatebion yn dangos ôl ymchwil dda ac yn tynnu sylw at ystod amrywiol o anghenion a hawliau, gan bwysleisio'r agweddau ymarferol ar gefnogi unigolion. Roedd rhai ymgeiswyr hyd yn oed wedi ymgorffori damcaniaethwyr amrywiol yn eu gwaith, a enillodd farciau oddi wrth y Ganolfan. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod yr elfen benodol hon o'r cwestiwn wedi'i dileu ac ni ellir rhoi marciau amdani.

© WJEC CBAC Ltd.

b. Mae cwestiwn B, sef y cwestiwn a farciwyd fwyaf yn y dasg asesu di-arholiad, yn cynnwys cyfanswm o 22 marc ac mae wedi'i rannu'n ddwy ran. Mae AA1 yn cyfrif am uchafswm o chwe marc, ac ar y cyfan, cwblhawyd yr adran hon yn dda. Er bod rhai Canolfannau wedi ymdrin ag AA1 yn gyfannol, aeth y mwyafrif i'r afael â'r adran hon ar wahân, gan grynhoi iechyd a lles yn gryno mewn perthynas â'r grŵp a ddewiswyd ganddynt. Cynghorir Canolfannau i fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn mewn dwy adran benodol i gyd-fynd â'r amcanion asesu a'r fanyleb. Yn ogystal, dylai aseswyr dynnu sylw at y mannau lle mae amcanion asesu wedi'u nodi a'u hanodi'n glir a nodi sut maent wedi'u marcio ar gyfer eglurder cymedroli. Mewn achosion lle nad oedd unrhyw anodiadau, roedd yn heriol heriol dirnad lle dyfarnwyd marciau. Serch hynny, dangosodd ymgeiswyr eu bod wedi mynd i'r afael â'r cwestiwn hwn yn drylwyr, yn enwedig yn AA3, ac wedi archwilio ffactorau a oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r grŵp a ddewiswyd trwy ymchwil gynhwysfawr.

c. Rhoddodd ymgeiswyr fewnwelediad i ystod amrywiol o rwystrau, a oedd yn gyson berthnasol i'r grŵp a ddewiswyd ganddynt, gan arddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Er bod rhai ymgeiswyr wedi trafod strategaethau ar gyfer goresgyn y rhwystrau hyn, mae'n bwysig nodi bod yr elfen hon wedi'i dileu ac na fydd yn ennill marciau mwyach fel rhan o gwestiwn C

ch. Roedd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o ddeddfwriaeth a'i rôl wrth gynnal hawliau'r grŵp a ddewiswyd ganddynt. Er bod yr ymgeiswyr yn ystyried deddfwriaeth nad oedd wedi cael ei chrybwyll yn benodol yn y fanyleb, roedd yn uniongyrchol berthnasol i'r grŵp a ddewiswyd.

d. Cynhaliodd ymgeiswyr ymchwil trylwyr ar gyfer y cwestiwn hwn, gan nodi ystod o fentrau a strategaethau a oedd yn berthnasol i'r grŵp a ddewiswyd ganddynt ar gyfer AA1. Fodd bynnag, roedd achosion lle roedd Canolfannau ac ymgeiswyr yn drysu rhwng mentrau/strategaethau ac argymhellion ar gyfer hyrwyddo hawliau'r grŵp a ddewiswyd. Yn y dyfodol, dylai Canolfannau edrych ar y mentrau a'r strategaethau a bennwyd yn y fanyleb fel canllaw ar gyfer cyfresi yn y dyfodol. Er enghraifft, Iechyd Cyhoeddus Cymru: Gweithio i Wireddu Dyfodol Iachach i Gymru yw'r fenter, sy'n rhan o'r fframwaith strategol o sicrhau dyfodol iachach i Gymru. Roedd ymatebion cryf yn gallu nodi'r fenter a'r strategaeth, a hefyd argymell sut roedd y rhain yn hyrwyddo hawliau unigol ar gyfer y grŵp a ddewiswyd ganddynt ar gyfer AA3.

**<u>Crynodeb o'r pwyntiau allweddol</u>**

- Cynghorir y dylai carfannau'r dyfodol gyflwyno digon o dystiolaeth ac anodiadau i gefnogi'r marciau a ddyfarnwyd.
- Dylai Canolfannau barhau i dynnu sylw at yr Amcanion Asesu, yn enwedig yn adrannau (b) ac (d), ar y daflen flaen a thrwy waith cyfan yr ymgeisydd. Gall anodiadau helpu gyda'r broses gymedroli.
- Sylwch fod damcaniaethwyr wedi'u dileu o gwestiwn A, ac mae goresgyn rhwystrau wedi'u dileu o gwestiwn C.
- Byddwch yn ymwybodol o nodi mentrau a strategaethau yng nghwestiwn D. Er enghraifft, ystyriwch "Iechyd Cyhoeddus Cymru: Gweithio i Wireddu Dyfodol Iachach i Gymru" fel menter sy'n cyd-fynd â'r fframwaith strategol ar gyfer dyfodol iachach yng Nghymru.
- Nododd ymatebion cryf y fenter a'r strategaeth yn llwyddiannus, gan argymell hefyd sut mae'r mentrau hyn yn hyrwyddo hawliau unigol ar gyfer grŵp a ddewiswyd.
- Llongyfarchiadau i'r holl Ganolfannau ac ymgeiswyr am eu gwaith caled.
- Ewch i'r ddogfen ganlynol i gael arweiniad ar gwestiynau A ac C, yng ngoleuni'r newidiadau diweddar: l3-hsc-pc-ext-dip-unit-3-abridged-sams-w-050124.pdf (dysguiechydagofal.cymru)

© WJEC CBAC Ltd.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

## Lefel 3

## Haf 2024

## UNED 4: DEALL SUT MAE CYFLYRAU CYFFREDIN YN EFFEITHIO AR Y CORFF DYNOL

### Trosolwg o'r Uned

Rhaid canmol pob canolfan am gyflwyno marciau ac uwchlwytho samplau cywir yn unol â therfyn amser CBAC ar gyfer y gwaith gofynnol. Lle bo angen, datrysodd swyddogion arholiad unrhyw broblemau, gan sicrhau bod samplau dilynol ar gael yn brydlon i fodloni'r broses gymedroli.

Gwnaeth rhai canolfannau wallau clercio mewn marciau a gyflwynwyd ar IAMIS o'i gymharu â thaflenni marciau, ac nid oedd marciau dalen flaen rhai ymgeiswyr yn cyfateb i farciau anodi ar y gwaith. Cafodd y rhan fwyaf o ffurflenni datganiad dilysrwydd ymgeisydd ac aseswr eu cwblhau a'u llofnodi'n briodol.

Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith a samplwyd mewn trefn ac yn y fformat priodol. Ni chafodd gwaith rhai ymgeiswyr ei sganio yn nhrefn gywir y tudalennau, a olygai fod yn rhaid i'r cymedrolwr chwilio'r ddogfen ar gyfer pob cwestiwn. Gwnaeth y rhan fwyaf, ond nid pob un, o'r canolfannau anodi ar waith yr ymgeiswyr, sy'n cynorthwyo'r broses gymedroli.

Mae'r asesiad ar gyfer Uned 4 yn cynnwys asesiad di-arholiad sy'n gofyn i ymgeiswyr ddangos eu bod yn deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol.

Mae'r asesiad wedi'i strwythuro'n bedair prif dasg:

**Cwestiwn (a):** Mae'r cwestiwn hwn, sy'n werth 22 marc, yn gofyn i ymgeiswyr egluro achosion ac effeithiau posibl Sglerosis Ymledol, a chyfeirio at achosion, arwyddion, symptomau, ac effeithiau byrdymor a hirdymor, yn ogystal â'r effaith ar fywyd bob dydd. Mae'r cwestiwn yn cyd-fynd â meysydd cynnwys 4.1, 4.2, a 4.3 o'r fanyleb ac mae'n canolbwyntio ar AA2 (Cymhwyso Gwybodaeth a Dealltwriaeth).

**Cwestiwn (b):** Mae'r cwestiwn hwn, sy'n werth 10 marc, yn gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio strategaethau lleihau risg i gefnogi iechyd a lles, a chyfeirio at strategaethau penodol sy'n berthnasol i Sglerosis Ymledol. Mae'n cyfateb i faes cynnwys 4.5 ac yn pwysleisio AA1 (Gwybodaeth a Dealltwriaeth).

**Cwestiwn (c):** Mae'r cwestiwn hwn, sy'n werth 18 marc, yn cynnwys asesu anghenion gofal a chymorth unigolion a'u rhwydweithiau, gan gynnwys modelau iechyd a lles perthnasol. Mae'r cwestiwn hwn yn cyfateb i faes cynnwys 4.4 ac yn canolbwyntio ar AA3 (Dadansoddi a Gwerthuso).

**Cwestiwn (ch)**: Cwestiwn 10 marc arall, rhaid i ymgeiswyr lunio ffeithlun ar *Clostridium Difficile* ac esbonio'r math o haint, ei achosion, ei gylch trosglwyddo, a niwed hirdymor. Mae'n ymwneud â maes cynnwys 4.1 ac yn pwysleisio AA1.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tasgau**
**Sylwadau am dasgau/cwestiynau yn ymwneud â pherfformiad ymgeiswyr/bodloni meini prawf asesu**

Cwblhaodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr rywfaint o waith manwl ar gyfer y rhan fwyaf o'r adrannau, gan ddangos tystiolaeth o ymchwil bellach a diweddar a dealltwriaeth ddyfnach o'r cyflyrau yn yr ysgogiadau. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser wedi'i gyfeirnodi'n briodol. Caniateir i ymgeiswyr gael mynediad i'r rhyngrwyd er mwyn ymchwilio i'r cyflyrau yn yr ysgogiadau, ac felly, mae'n arfer da annog ymgeiswyr i ddatblygu eu sgiliau cyfeirnodi. Dylid atgoffa ymgeiswyr hefyd eu bod nhw a'r asesydd yn llofnodi i gadarnhau eu bod wedi cyfeirnodi'n glir unrhyw ffynonellau a ddefnyddiwyd yn eu gwaith ar y daflen datganiad ymgeisydd ac athro. Er na chanfuwyd unrhyw achosion sylweddol o lên-ladrad, nodwyd bod gwaith rhai ymgeiswyr a gyflwynwyd yn agos iawn at y ffynhonnell wreiddiol, yn enwedig ar gyfer cwestiwn (ch), yr ffeithlun.
\
Yn gyffredinol, dangosodd y gwaith a gyflwynwyd ar gyfer samplu, rai sgiliau digidol rhagorol gan ymgeiswyr a oedd wedi llunio diwyg da iawn ar gyfer erthyglau a ffeithluniau. Atgoffir canolfannau y dylid sicrhau bod y gwaith ar gyfer cwestiynau (a) i (c) yn cael ei gyflwyno fel un erthygl sy'n addas ar gyfer cylchgrawn iechyd a gofal cymdeithasol ac nid fel traethawd neu draethodau byr unigol. Yn yr un modd, er mwyn bodloni gofynion ysgrifennu erthygl sy'n addas ar gyfer y sector, dylid annog ymgeiswyr ar y lefel hon i ddefnyddio terminoleg ffurfiol (e.e. “ysgarthion" yn lle "cachu") drwyddi draw, gan gynnwys defnyddio ymadroddion cyfoes fel "byw gyda..." yn hytrach na "dioddef gyda…”. Lluniodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr erthygl a ffeithluniau a ysgrifennwyd yn y person cyntaf; dylid atgoffa'r ymgeiswyr, gan eu bod yn cynhyrchu gwaith sy'n addas ar gyfer cylchgrawn sector, y dylent ysgrifennu yn y trydydd person.

Nod uchafswm cyfrif geiriau yw datblygu arddull ysgrifennu gryno a sgiliau meddwl yn feirniadol yr ymgeisydd, lle mae angen canolbwyntio ar y pwyntiau pwysicaf sy'n ofynnol i ateb y cwestiwn. Er y gall fod yn heriol i rai ymgeiswyr uwch eu cyflawniad gadw at gyfanswm cyfrif geiriau, dylid gorfodi'r uchafswm cyfrif geiriau er mwyn sicrhau tegwch i bob ymgeisydd. Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn gofyn am uchafswm o 3,000 o eiriau i gynnwys yr erthygl a'r ffeithlun. Roedd rhai ymgeiswyr wedi mynd dros yr uchafswm cyfrif geiriau hwn - mewn rhai achosion, roeddent hyd at 2,000 o eiriau uwchlaw'r uchafswm cyfrif geiriau. Mewn cyferbyniad, ni wnaeth ymgeiswyr is eu cyflawniad ddefnyddio'r uchafswm cyfrif geiriau a ganiatawyd ar gyfer yr asesiad di-arholiad hwn. Byddai'n arfer da i bob ymgeisydd roi cyfrif geiriau ar ddiwedd eu herthygl er mwyn eu helpu i gadw ffocws yn ystod yr amser a ganiateir i gwblhau'r asesiad di-arholiad.

Yn gyffredinol, roedd y gwaith a gyflwynwyd ar gyfer samplu yn dangos dilyniant rhesymegol ar gyfer cwestiynau (a) i (c).

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

Cwblhaodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr rywfaint o waith manwl ar gyfer y rhan fwyaf o'r adrannau, gan ddangos tystiolaeth o ymchwil bellach a diweddar a dealltwriaeth ddyfnach o'r cyflyrau yn yr ysgogiadau. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser wedi'i gyfeirnodi'n briodol. Caniateir i ymgeiswyr gael mynediad i'r rhyngrwyd er mwyn ymchwilio i'r cyflyrau yn yr ysgogiadau, ac felly, mae'n arfer da annog ymgeiswyr i ddatblygu eu sgiliau cyfeirnodi. Dylid atgoffa ymgeiswyr hefyd eu bod nhw a'r asesydd yn llofnodi i gadarnhau eu bod wedi cyfeirnodi'n glir unrhyw ffynonellau a ddefnyddiwyd yn eu gwaith ar y daflen datganiad ymgeisydd ac athro. Er na chanfuwyd unrhyw achosion sylweddol o lên-ladrad, nodwyd bod gwaith rhai ymgeiswyr a gyflwynwyd yn agos iawn at y ffynhonnell wreiddiol, yn enwedig ar gyfer cwestiwn (ch), yr ffeithlun.

© WJEC CBAC Ltd.

Yn gyffredinol, dangosodd y gwaith a gyflwynwyd ar gyfer samplu, rai sgiliau digidol rhagorol gan ymgeiswyr a oedd wedi llunio diwyg da iawn ar gyfer erthyglau a ffeithluniau. Atgoffir canolfannau y dylid sicrhau bod y gwaith ar gyfer cwestiynau (a) i (c) yn cael ei gyflwyno fel un erthygl sy'n addas ar gyfer cylchgrawn iechyd a gofal cymdeithasol ac nid fel traethawd neu draethodau byr unigol. Yn yr un modd, er mwyn bodloni gofynion ysgrifennu erthygl sy'n addas ar gyfer y sector, dylid annog ymgeiswyr ar y lefel hon i ddefnyddio terminoleg ffurfiol (e.e. “ysgarthion" yn lle "cachu") drwyddi draw, gan gynnwys defnyddio ymadroddion cyfoes fel "byw gyda..." yn hytrach na "dioddef gyda…”. Lluniodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr erthygl a ffeithluniau a ysgrifennwyd yn y person cyntaf; dylid atgoffa'r ymgeiswyr, gan eu bod yn cynhyrchu gwaith sy'n addas ar gyfer cylchgrawn sector, y dylent ysgrifennu yn y trydydd person.

Nod uchafswm cyfrif geiriau yw datblygu arddull ysgrifennu gryno a sgiliau meddwl yn feirniadol yr ymgeisydd, lle mae angen canolbwyntio ar y pwyntiau pwysicaf sy'n ofynnol i ateb y cwestiwn. Er y gall fod yn heriol i rai ymgeiswyr uwch eu cyflawniad gadw at gyfanswm cyfrif geiriau, dylid gorfodi'r uchafswm cyfrif geiriau er mwyn sicrhau tegwch i bob ymgeisydd. Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn gofyn am uchafswm o 3,000 o eiriau i gynnwys yr erthygl a'r ffeithlun. Roedd rhai ymgeiswyr wedi mynd dros yr uchafswm cyfrif geiriau hwn - mewn rhai achosion, roeddent hyd at 2,000 o eiriau uwchlaw'r uchafswm cyfrif geiriau. Mewn cyferbyniad, ni wnaeth ymgeiswyr is eu cyflawniad ddefnyddio'r uchafswm cyfrif geiriau a ganiatawyd ar gyfer yr asesiad di-arholiad hwn. Byddai'n arfer da i bob ymgeisydd roi cyfrif geiriau ar ddiwedd eu herthygl er mwyn eu helpu i gadw ffocws yn ystod yr amser a ganiateir i gwblhau'r asesiad di-arholiad.

Yn gyffredinol, roedd y gwaith a gyflwynwyd ar gyfer samplu yn dangos dilyniant rhesymegol ar gyfer cwestiynau (a) i (c).

**Cwestiwn (a):** Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr rywfaint o ddealltwriaeth o achosion ac effeithiau posibl Sglerosis Ymledol, gan roi'r wybodaeth gywir ddiweddaraf. Gwnaeth ymgeiswyr a gollodd farciau yn yr adran hon ac a fethodd â chyrraedd y bandiau uwch yn y cwestiwn hwn fethu â gwahaniaethu rhwng yr effeithiau byrdymor a hirdymor ar y corff dynol ac ni wnaethant gymhwyso eu gwybodaeth o'r cyflwr at yr effaith ar fywyd bob dydd. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr y gwelwyd eu bod dros yr uchafswm cyfrif geiriau yn gyffredinol ar gyfer yr asesiad di-arholiad hwn wedi manylu eithaf tipyn yn yr adran hon ar drin Sglerosis Ymledol; nid yw hyn yn un o ofynion y cwestiwn ac felly mae'n gwastraffu cyfrif geiriau gwerthfawr ac amser yn ddiangen. Cyfeiriodd sawl ymgeisydd yn amhriodol at Wicipedia yn yr adran hon.

**Cwestiwn (b):** Roedd ymatebion ymgeiswyr i strategaethau lleihau risg y gellir eu gweithredu i gefnogi iechyd a lles unigolion sy'n byw gyda'r cyflwr yn tueddu i ddangos diffyg cydbwysedd. Ni wnaeth ymgeiswyr a fethodd â chyrraedd y bandiau marciau uchaf yn yr adran hon ystyried ymwybyddiaeth gyhoeddus gynyddol o'r cyflwr a sut mae modd cefnogi unigolion i oresgyn rhwystrau i gefnogi iechyd a llesiant, fel model gofal a chymorth sy'n seiliedig ar gryfderau, cynhwysiant ac adeiladu ar gryfderau, galluoedd a sgiliau unigolyn. Yn yr un modd â'r gyfres flaenorol, canolbwyntiodd rhai ymgeiswyr ar fodelau hyrwyddo iechyd yn yr adran hon. Er bod addysgu unigolion yn hanfodol er mwyn lleihau symptomau, gellir mynd â llawer o'r cyfrif geiriau yn ddiangen. Roedd sawl ymgeisydd wedi cynghori'r darllenydd yn amhriodol i "Gwglo" rhai strategaethau lleihau risg.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn (c):** Gwnaeth yr ymgeiswyr uwch eu cyflawniad fodloni'r gair gorchymyn 'aseswch', gan lwyddo i asesu'n fanwl y math o ofal a chymorth y galli unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cylch ehangach fod eu hangen wrth fyw gyda Sglerosis Ymledol. Braf oedd gweld rhai ymgeiswyr yn cysylltu â chynnwys o unedau 1, 3, 5 neu 8 yn yr adran hon ac yn defnyddio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddangos dealltwriaeth ddyfnach rhwng unedau yn y cymhwyster a'r ddeddfwriaeth briodol. Dylid atgoffa ymgeiswyr fod y cwestiwn ar gyfer yr adran hon yn gofyn iddynt asesu anghenion gofal a chymorth teulu, ffrindiau a chylch ehangach, ac nid anghenion gofal a chymorth yr unigolyn sy'n byw gyda'r cyflwr yn unig. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi canolbwyntio ar anghenion gofal a chymorth yr unigolyn sy'n byw gyda'r cyflwr ac wedi methu â chynnwys anghenion gofal a chymorth teulu, ffrindiau a'r cylch ehangach. Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o fodelau iechyd a lles meddygol, cymdeithasol a biosiecogymdeithasol; fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn dangos gallu cyfyngedig i gymhwyso modelau iechyd a lles at ofal a chymorth unigolion sy'n byw gyda Sglerosis Ymledol yn benodol. Ni wnaeth rhai ymgeiswyr gyfeirio at y modelau iechyd a lles o gwbl ac, o ganlyniad, gwnaethant golli'r cyfle i ennill marciau bandiau uwch am y dasg hon.

**Cwestiwn (ch):** Roedd y rhan fwyaf o ffeithluniau a luniwyd gan ymgeiswyr yn amlinellu dealltwriaeth dda o *C. Difficile*, ac roedd ymatebion rhai ymgeiswyr yn deilwng o farciau uwch yn y dasg hon. Defnyddiodd ambell ymgeisydd Ysgogiad 1 (MS) fel y cyflwr ar gyfer y cwestiwn hwn ac, felly, ni wnaethant ennill unrhyw farciau. Bwriad llunio ffeithlun yw datblygu creadigrwydd ac arloesedd ymgeisydd wrth ddylunio a chyflwyno ffeithlun. Felly, nid ystyrir bod dogfen Word yn ddull addas o lunio ffeithlun. Yn hytrach, gallai canolfannau annog ymgeiswyr i ddefnyddio un sleid PowerPoint, Sleid Google, Microsoft Publisher neu gymhwysiad fel Canva i lunio eu ffeithlun i'w lawrlwytho fel un ffeil PDF i'w samplu. Dylai ymgeiswyr sicrhau y gellir darllen y ffeithlun drwy liwiau cefndir tywyll, yn enwedig os bwriedir i'r ffeithlun gael ei gopïo/sganio mewn du a gwyn i'w gyflwyno i'w gymedroli. Nid oedd yr ymgeiswyr hynny a gollodd farciau yn yr adran hon wedi ystyried yn llawn y chwe chyswllt yng nghadwyn cylch trosglwyddo'r haint na'r niwed hirdymor a allai ddigwydd o ganlyniad i *C. Difficile*. Roedd rhai ymgeiswyr naill ai ond wedi rhestru rhywfaint o'r niwed hirdymor posibl a allai ddigwydd oherwydd *C. Difficile* neu roeddent wedi methu ag ateb yr adran hon. Dylai ymgeiswyr geisio llunio eu fersiwn eu hunain o ddiagram o'r cylch trosglwyddo er mwyn dangos eu dealltwriaeth ac nid dim ond copïo delwedd o'r rhyngrwyd. Aeth rhai ymgeiswyr i gryn fanylder yn yr adran hon ar drin *C. Difficile*. Nid yw hyn yn un o ofynion y cwestiwn ac felly mae'n gwastraffu cyfrif geiriau gwerthfawr ac amser yn ddiangen.

**Marcio tasgau**
**Sylwadau am ddulliau marcio mewnol**

Gall fod yn ddefnyddiol i ganolfannau adolygu gofynion y geiriau gorchymyn gydag ymgeiswyr yn y dyfodol, yn enwedig y ferf "aseswch" i ateb cwestiwn (c).

Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o waith yr ymgeiswyr wedi'i farcio'n gywir gan ganolfannau. Mae'r cynllun marcio yn defnyddio dull 'ffit orau', a dylid cwmpasu pob pwynt marcio mewn band marciau er mwyn dyfarnu band. Er enghraifft, byddai gwaith gyda'r rhan fwyaf o bwyntiau ym Mand 3 ond byddai cwpl ym Mand 4 yn cael eu marcio ar ben uchaf Band 3.

Nid yw tystiolaeth o wirio mewnol yn un o ofynion y cymhwyster hwn, ond roedd yn braf ei weld. Anogir canolfannau lle mae mwy nag un asesydd yn cyflwyno'r cymhwyster hwn i wirio asesiadau di-arholiad yn fewnol cyn cofnodi marciau ar IAMIS.

© WJEC CBAC Ltd.

Gwnaeth ambell ymgeisydd beth o'u gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg a pheth yn Saesneg. Er bod cymedrolwyr dwyieithog ar gyfer y cymhwyster hwn, sy'n gallu cymedroli samplau Cymraeg a Saesneg, atgoffir canolfannau bod codau mynediad gwahanol ar gyfer ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 3**

**Haf 2024**

**UNED 5: CEFNOGI UNIGOLION SYDD MEWN PERYGL I GYFLAWNI'R CANLYNIADAU MAEN NHW'N DYMUNO EU CAEL**

**Trosolwg o'r Uned**

Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r uned gael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad a gweithiodd ymgeiswyr a chanolfannau yn dda i ddefnyddio amrywiaeth o ffyrdd a dulliau i ymateb i'r dasg. Ar y cyfan, roedd lefel y gwaith a'r ddealltwriaeth o safon dda ac roeddent yn gallu dangos dealltwriaeth a gwybodaeth glir o'r gwahanol ddeilliannau dysgu.

- Ar y cyfan, roedd lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth ac roedd yr ymgeiswyr yn gallu cysylltu hynny â'r unigolyn a ddewiswyd ganddynt.
- Roedd yr asesiad di-arholiad yn cynnwys 2 dasg, y gyntaf yn ymwneud â chyflwyno nodiadau achos ar unigolyn a ddewiswyd ac asesodd hon 5.1, 5.2 a 5.5. Ar gyfer y dasg hon bu'r dysgwyr yn gweithio mewn amodau rheoledig, heb fynediad i'r rhyngrwyd ac roeddent yn gallu defnyddio nodiadau a baratowyd ymlaen llaw. Dylid cynnwys y nodiadau hyn fel rhan o unrhyw ddeunydd sy'n cael ei uwchlwytho i Surpass, ynghyd â gwaith yr ymgeisydd, dogfennau asesu, datganiad dysgwyr a thaflen amser.
- Defnyddiwyd amrywiaeth eang o fformatau ar gyfer y cwestiwn hwn, yn amrywio o arddull adroddiad, fformat nodiadau achos traddodiadol i arddull cyflwyniad. Fodd bynnag, dylid nodi, wrth ddefnyddio arddull cyflwyniad, nad oedd yn ymddangos bod defnyddio'r adran nodiadau yn y mwyafrif o achosion yn annog yr ymgeisydd i roi digon o fanylion datblygiad. Felly cynghorir, os oes angen nodiadau ychwanegol i ategu eu gwaith, fod y rhain yn cael eu rhoi mewn dogfen ar wahân, yn hytrach na chael eu cynnwys ar y nodiadau ar y sleidiau.
- Mae'r ail dasg yn ymwneud â 5.3 a 5.4 a chaniateir mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer y dasg hon er mwyn cynorthwyo'r dysgwyr i greu cynllun gofal ar gyfer yr unigolyn a ddewiswyd ganddynt. Unwaith eto, roedd amrywiaeth o fformatau yn y cwestiwn ac er ei bod yn iawn defnyddio fformat grid, cynghorir ymgeiswyr na ddylid datblygu fformat grid mewn ffordd a fyddai'n eu hatal rhag cyflawni AA3, felly byddai angen ehangu'r grid yn ddigonol. Yng nghwestiwn 2a hefyd roedd nifer o ymgeiswyr wedi canolbwyntio ar ddeddfwriaeth yn unig, nid codau ymarfer nac ymddygiad, gan gyfyngu ar eu gradd ar y cwestiwn hwnnw.
- Roedd amrywiaeth o arddulliau o ddogfennaeth marcio ac asesu wedi'u cyflwyno gan ganolfannau ar gyfer cymedroli. Gwelwyd arfer da lle roedd anodiadau clir o sgriptiau yn rhoi band marcio a chanlyniad asesu perthnasol, yn ogystal â chyfiawnhad clir â thystiolaeth dros y band asesu ar y ddalen flaen. Er nad yw'n orfodol, mae anodiadau ar sgriptiau ymgeiswyr yn galluogi cymedrolwyr i weld y cyfiawnhad dros y graddau a ddyfarnwyd.
- Cafodd y rhan fwyaf o'r sgriptiau eu uwchlwytho'n llawn ar amser, ond mae angen i Ganolfannau gadarnhau eu bod wedi uwchlwytho eu holl samplau, gan y gall oedi wrth gysylltu arwain at oedi wrth roi cymhwyster.
- Unwaith eto roedd y rhan fwyaf o Ganolfannau wedi trefn ar y gwaith papur, ond mae'n hanfodol bod datganiadau dysgwyr yn cael eu llofnodi a'u cynnwys ynghyd â'r nodiadau y mae ymgeiswyr wedi'u defnyddio.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

Cwestiwn 1a
Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dangos lefel dda o wybodaeth yn yr adran hon ac roeddent yn gallu cyfeirio at nifer o ffactorau a oedd yn cyfrannu at y risgiau yr oedd yr unigolion yn eu hwynebu. Enillodd llawer o ymgeiswyr sgoriau da am y cwestiwn hwn gan roi esboniad clir, ond roedd yr ymgeiswyr a oedd yn ennill marciau yn y bandiau marc isaf, yn canolbwyntio ar nodi neu ddisgrifio'r ffactorau heb roi unrhyw esboniad. Mae hefyd yn bwysig bod cysylltiad amlwg rhwng y ffactorau hyn a'r unigolyn a'u bod yn ffactorau yn y gorffennol. Aeth lleiafrif o'r ymgeiswyr ati i ateb y cwestiwn hwn trwy roi trosolwg o ffactorau posibl, heb gyfeirio at yr unigolyn a ddewiswyd ganddynt.

**Cwestiwn 1b**
Ymatebodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn dda i'r cwestiwn hwn ac roeddent yn gallu amlinellu'n glir y risgiau presennol. Rhoddodd rhai ymgeiswyr atebion manwl, ond oherwydd eu bod ond yn canolbwyntio ar 2 ffactor, roeddent wedi'u cyfyngu o ran ennill marciau band 3, gan ei fod yn nodi y dylai'r ymateb, 'dangos ystod o wybodaeth a dealltwriaeth gywir' felly byddai disgwyl y byddai 3 neu fwy o risgiau'n cael eu trafod. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ymdriniwyd â'r cwestiwn hwn yn dda iawn.

**Cwestiwn 1c**
Cafwyd rhai ymatebion da ar gyfer y cwestiwn hwn a oedd yn dangos dealltwriaeth glir a disgrifiad o wahanol ffactorau a all effeithio ar hawliau defnyddwyr gwasanaeth ac roeddent yn gallu cysylltu â'r unigolyn a ddewiswyd ganddynt. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn canolbwyntio mwy ar ba hawliau y dylai'r unigolyn eu cael, nid ffactorau sy'n effeithio ar eu hawliau. Er bod dealltwriaeth o ba hawliau y dylai fod gan yr unigolyn yn rhan bwysig o'r ateb, dylai'r ffocws fod wedi bod ar y ffactorau sy'n effeithio ar yr hawliau hynny. Hefyd, roedd lleiafrif o ymgeiswyr a oedd wedi ymateb i'r cwestiwn hwn drwy drafod ffactorau a oedd yn eu rhoi mewn perygl, heb fawr ddim trafodaeth am hawliau, ac felly mae'n debyg eu bod wedi camddeall ffocws y cwestiwn. Er mwyn cyrraedd y bandiau uchaf roedd hefyd yn bwysig bod y ffactorau hyn yn cyfeirio at yr unigolyn a ddewiswyd yn y gorffennol, yn hytrach na phwyntiau cyffredinol am ffactorau a all effeithio ar hawliau. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn gallu cysylltu'r wybodaeth hon yn dda iawn â'r unigolion a gwelwyd rhai ymatebion rhagorol.

**Cwestiwn 1ch**
Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn gyda rhai ymgeiswyr yn rhoi ymateb rhagorol, ond nid oedd rhai ymgeiswyr yn gallu cymhwyso'r wybodaeth mor effeithiol at yr unigolyn a ddewiswyd ganddynt. Cwestiwn AA2 yw hwn, sy'n canolbwyntio ar gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth, felly roedd ymgeiswyr yn y band uchaf wedi esbonio'r ffactorau a'u cymhwyso'n glir at yr unigolyn a ddewiswyd ganddynt yn y presennol. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu trafod ffactorau posibl ond nid oeddent yn eu cysylltu nac yn eu cymhwyso at yr unigolyn yn yr astudiaeth achos.

**Cwestiwn 1d**
Cafwyd amrywiaeth eang o atebion i’r cwestiwn hwn hefyd. Roedd rhai ymatebion rhagorol yn gallu adnabod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol penodol a oedd yn berthnasol i'w hunigolyn ac roeddent yn gallu trafod dulliau gwahanol y gellid eu defnyddio i hyrwyddo cynhwysiant, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir. Fodd bynnag, rhoddodd eraill drosolwg eithaf cyffredinol o'r hyn y gallai gweithwyr ei wneud mewn ffordd amhenodol ac felly roeddent yn rhoi ymateb a oedd yn cyffredinoli braidd.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tasg 2**

**Cwestiwn 2a**
Er bod rhai ymatebion rhagorol i'w gweld ar gyfer y cwestiwn hwn a oedd yn ymdrin â'r ystod o ddeddfwriaeth, codau ymarfer a chodau ymddygiad, gwnaeth nifer o ymgeiswyr gyfyngu ar y radd y gallent ei chyflawni trwy beidio â thrafod codau ymarfer/ymddygiad. Er mwyn cyrraedd band marciau 2 neu'n uwch, dylai'r ymgeisydd, 'gyfeirio rhywfaint at ddeddfwriaeth a chodau ymarfer/codau ymddygiad'. Felly ni all ymgeiswyr nad ydynt yn cyfeirio at godau ymarfer/ymddygiad ennill dim byd uwch na band marciau 1. Mae rhai ymgeiswyr wedi ysgrifennu'n fanwl am ddeddfwriaeth yn unig ac mae'r Ganolfan wedi dyfarnu band uchel iddynt, felly mae'n bwysig bod Canolfannau yn myfyrio'n rheolaidd ar y gwahanol feini prawf ar gyfer y bandiau marcio ac yn sicrhau hefyd fod ymgeiswyr yn ymwybodol ohonynt, yn enwedig ar achlysuron lle gall hepgor adran benodol gyfyngu ar y graddau a ddyfarnwyd.

**Cwestiwn 2b**
Rhoddodd llawer o ymgeiswyr asesiad manwl o'r gwahanol arferion iechyd a gofal cymdeithasol a sut y gallant ddiogelu eu hunigolyn. Roeddent yn gallu dadansoddi a deall pa mor effeithiol oedd yr arferion a rhoi enghreifftiau clir. Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod ymgeiswyr yn mynd i'r afael â'r cwestiwn hwn yn dda, gyda llawer o ddysgwyr yn cyrraedd bandiau marciau 5 a 4. Lle na chyflawnwyd y bandiau uchaf, roedd y rhan fwyaf o'r gwaith yn dal i fod yn foddhaol ac yn rhoi dealltwriaeth glir o sut y gallai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ddiogelu'r unigolyn a ddewiswyd ganddynt a'i amddiffyn rhag risg. Ni wnaeth lleiafrif o ymgeiswyr sgorio'n dda gan nad oeddent wedi cyfeirio at yr unigolyn a ddewiswyd ganddynt.

**<u>Crynodeb o'r pwyntiau allweddol</u>**

- I grynhoi, roedd ystod dda o ddulliau o ymdrin â'r cwestiwn hwn a gwelwyd rhywfaint o waith rhagorol gan rai ymgeiswyr, gyda'r mwyafrif o ymgeiswyr yn dangos lefel dda o ddealltwriaeth a gwybodaeth.

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 3**

**Haf 2024**

**UNED 6: GWEITHIO YN Y SECTOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL**

**Trosolwg o'r Uned**

Dyma'r ail adroddiad ar gyfer y rhaglen hon, ac mae'r mwyafrif o ganolfannau wedi dilyn gofynion canllawiau CBAC. Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn cymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd drwy ymgysylltu â'r sector (100 awr) i gwblhau'r asesiad dan reolaeth yn llwyddiannus. Roedd rhai canolfannau yn annog eu dysgwyr i ymgymryd â dau leoliad profiad gwaith, a oedd yn arfer da. Hefyd, rhoddwyd ystod o brofiadau ymgysylltu iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol i ymgeiswyr megis hyfforddiant cymorth cyntaf, gwybodaeth am wahanol yrfaoedd yn y sector, ac ymweliadau â gwahanol leoliadau a gwasanaethau.

Cymerodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ran mewn lleoliadau/gwasanaethau lleoliad gwaith priodol, megis cartrefi gofal preswyl, gwasanaethau gofal dydd i oedolion, wardiau ysbyty a gwasanaethau gofal cartref. Fodd bynnag, rhoddwyd nifer o ymgeiswyr mewn adrannau dysgu ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd, colegau a meithrinfeydd, nad ydynt yn lleoliadau derbyniol ar gyfer y rhaglen hon. Mae manyleb y cymhwyster iechyd a gofal cymdeithasol hwn yn amlinellu'r lleoliadau/gwasanaethau priodol yng nghanllawiau CBAC ar gyfer yr uned hon. Mae rolau rheng flaen a swyddogaethau cymorth iechyd a gofal cymdeithasol priodol wedi'u nodi yn adran 6.1 o'r fanyleb, nad ydynt yn cynnwys penaethiaid, athrawon na chynorthwywyr addysgu. Yn aml, nid oedd ymgeiswyr a oedd wedi'u lleoli mewn lleoliadau/gwasanaethau anghywir yn gallu cyrraedd y bandiau marciau uchaf, gan nad oeddent yn gallu rhoi enghreifftiau priodol o iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hymatebion.

Cyflwynodd y rhan fwyaf o'r canolfannau dystiolaeth o samplau dysgwyr erbyn y dyddiad cau, sef 11/06/2024. Fodd bynnag, anfonodd ychydig o ganolfannau y dystiolaeth yn hwyr, ac anfonodd rhai canolfannau dystiolaeth anghyflawn. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod yr holl dystiolaeth ofynnol yn cael ei chyflwyno, gan gynnwys y Dyddiadur Myfyriol, y Lleoliad(au) Gwaith/Cofnod Ymgysylltu â'r Sector (wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan yr ymgeisydd i gadarnhau ei fod wedi ymgymryd â 100 awr) a'r Daflen Farciau (wedi'i dilysu drwy lofnodion yr Athro a'r Ymgeisydd ac wedi'i dyddio). Nodwyd nifer fach o wallau gweinyddol megis cyfansymiau anghywir ar y Daflen Farciau , ac weithiau roedd gwahaniaeth rhwng y marc ar y Daflen Farciau a marc yr ymgeisydd a gyflwynwyd ar-lein.

Cyflwynodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr eu hadroddiadau Asesiad Di-arholiad (NEA) yn effeithiol, gan ddefnyddio fformat ysgrifenedig clir a threfnus, ac fel arfer roeddent yn mynd i'r afael â phob tasg mewn trefn resymegol gan ddefnyddio teitlau is-benawdau. Yn gyffredinol, rhoddodd yr aseswyr adborth clir a manwl ar waith dysgwyr, a oedd yn cefnogi gwiriadau sicrhau ansawdd mewnol, a'r broses safoni gyffredinol. Defnyddiodd y rhan fwyaf o ganolfannau lle roedd mwy nag un asesydd wiriadau cymedroli mewnol i sicrhau ansawdd a sicrhau bod y marciau a ddyfarnwyd wedi cael eu safoni drwy'r Ganolfan gyfan. Os oes gan ganolfannau fwy nag un asesydd, rhaid cynnal gwiriadau samplu sicrhau ansawdd mewnol i gadarnhau bod marciau wedi'u safoni drwy'r ganolfan gyfan.

© WJEC CBAC Ltd.

Cyflwynodd rhai ymgeiswyr dystiolaeth a oedd wedi dod o ffynonellau eraill ac roedd rhai achosion o lên-ladrad a amheuir, nad oedd y Ganolfan wedi'u nodi. Gwnaeth ambell ymgeisydd gopïo a gludo gwybodaeth a oedd yn dod o ffynhonnell eilaidd ond nad oedd wedi'i nodi'n ddyfyniad uniongyrchol o'r ffynhonnell honno. Efallai y bydd angen i ymgeiswyr gyfeirio at wybodaeth o ffynonellau eilaidd, ond rhaid nodi'r ffynhonnell ac, os defnyddir yr un geiriad o'r ffynhonnell, rhaid iddo gael ei roi mewn dyfynnodau. Pan oedd cymaint o wybodaeth yn dod yn uniongyrchol o ffynonellau eilaidd, aeth yn anodd nodi pa waith ysgrifenedig a oedd wedi'i gynhyrchu gan yr ymgeisydd yn unig. Gnaeth nifer fach o ymgeiswyr hefyd gopïo a gludo gwybodaeth yn uniongyrchol o'r fanyleb, nad oedd wedi cael ei nodi gan yr asesydd. Mae rhai canolfannau yn rhoi gwaith eu hymgeiswyr drwy 'wiriwr llên-ladrad', sy'n arfer da, i gefnogi prosesau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol. Mae'n rhaid i aseswyr lofnodi Datganiad y Daflen Farciau i gadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, fod y gwaith a gyflwynwyd wedi cael ei gynhyrchu gan yr ymgeisydd yn unig.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

A (i) Roedd yn ofynnol i ymgeiswyr amlinellu prif bwrpas y lleoliad/gwasanaeth a ddewiswyd a rôl y cyflogwr i hyrwyddo a diogelu hawliau gweithwyr sy'n gweithio yn y lleoliad/gwasanaeth. Cafwyd atebion da i'r dasg hon ar y cyfan. Collwyd marciau lle nad oedd ymgeiswyr wedi amlinellu rôl y cyflogwr, neu nad oeddent wedi cyfeirio'n briodol at y sector/lleoliad. Gallai ymgeiswyr fod wedi cyfeirio at bolisïau a gweithdrefnau penodol i hyrwyddo cydraddoldeb a gwrthwahaniaethu, amrywiol bolisïau iechyd a diogelwch, y diwylliant sefydliadol a gweithdrefnau diogelu data a chyfrinachedd ar gyfer staff a defnyddwyr gwasanaethau.

A (ii) Roedd yn rhaid i ymgeiswyr amlinellu dwy rôl swydd o fewn y lleoliad/gwasanaeth a brofwyd yn uniongyrchol fel rhan o ymgysylltu â'r sector neu mewn cysylltiad â'r lleoliad/gwasanaeth hwnnw, gan gynnwys:

- prif bwrpas y rôl
- y sgiliau penodol sydd eu hangen
- gofynion o ran cymwysterau
- rheoleiddio proffesiynol fel y bo'n briodol i'r rôl

Amlinellodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddwy rôl swydd briodol o'u lleoliad yn dda ac roedd yr ymgeiswyr hynny a oedd wedi cael profiad yn y lleoliad/gwasanaeth a argymhellwyd gan CBAC yn tueddu i ennill marciau mewn bandiau uwch. Nododd yr ymgeiswyr sgiliau penodol a oedd eu hangen a gofynion o ran cymwysterau, ond cyfeiriodd rhai ymgeiswyr yn fwy cyffredinol at y DU yn hytrach nag at ofynion hyfforddiant penodol yng Nghymru.

A (iii) Roedd yr ymgeiswyr oedd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth ac arferion rheoleiddio penodol i Gymru a amlinellir yn y fanyleb yn cyrraedd y bandiau marciau uwch. Collodd ymgeiswyr farciau drwy beidio â chysylltu deddfwriaeth ac arferion Cymru â'u sector/lleoliad. Dylid cyfeirio at ddeddfwriaeth sy'n benodol i Gymru, megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac arferion fel y Cynnig Gweithredol, yn hytrach na deddfwriaeth gyffredinol fel y Ddeddf Hawliau Dynol neu'r Ddeddf Cydraddoldeb. Cyfeiriodd sawl ymgeisydd at leoliadau/gwasanaethau addysgol yng nghyd-destun deddfwriaeth ac ymarfer rheoleiddio. Methodd nifer o ymgeiswyr â chyfeirio at reoleiddio proffesiynol, nac roeddent wedi ymchwilio i enghreifftiau o Loegr ac wedi cyflwyno'r rhain, yn hytrach na gofynion yng Nghymru fel AGC (ar gyfer gwasanaethau gofal) a'r AGIC (ar gyfer gwasanaethau iechyd).

© WJEC CBAC Ltd.

B Darparodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr archwiliad manwl a chlir o dri arfer a ddewiswyd i ddangos cyfathrebu, cydgynhyrchu, cydweithio, gwaith tîm a/neu broffesiynoldeb effeithiol, gan gyfeirio at eu dewis leoliad / lleoliad sector. Ni wnaeth rhai ymgeiswyr gyfeiriadau penodol at leoliad/gwasanaeth eu profiad gwaith ac nid oeddent yn gallu cyrraedd y bandiau marciau uwch.

C (i) Roedd yn rhaid i ymgeiswyr ystyried sut mae deddfwriaeth, rheoliadau a fframweithiau Cymru wedi dylanwadu ar arferion yn y lleoliad/gwasanaeth er mwyn:

- gwella gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- llywio polisi ac ymarfer i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a'r unigolion sy'n cael y gofal.

I gyrraedd y bandiau marciau uchaf, dylai ymgeiswyr roi enghreifftiau o'u lleoliad i ategu eu gwybodaeth am ddiogelu. Mewn rhai achosion, ni roddwyd sylw i gydrannau hanfodol diogelu. Gallai atebion fod wedi cyfeirio at sicrhau bod diogelu wrth wraidd ymarfer y lleoliad/gwasanaeth, gan gyfeirio at hyfforddiant sefydlu a pharhaus, cofnodion cywir wedi'u diweddaru, cymarebau diogel rhwng staff a defnyddwyr gwasanaeth, defnyddio gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac annog adborth adolygu rheolaidd i wneud y system gwynion yn effeithiol.

CH Roedd yn rhaid i ymgeiswyr ddadansoddi sut y cydymffurfir â chodau ymddygiad/ymarfer proffesiynol a sut y cânt eu cymhwyso yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio enghreifftiau o'u hymgysylltu â'r sector. Roedd perfformiad ymgeiswyr oedd wedi cwblhau'r lleoliadau a argymhellwyd gan CBAC o ran y codau ymddygiad yn well ac roeddent yn gallu dadansoddi sut roedd y rhain yn cael eu dilyn o fewn y sector a ddewiswyd ganddynt. Gallai ymgeiswyr fod wedi cyfeirio at y ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei chyfleu i'r holl staff, gan gynnig hyfforddiant i sicrhau dealltwriaeth, sicrhau ansawdd prosesau rheoli perfformiad a darparu gwasanaethau cwynion a chanmoliaeth. Unwaith eto, cyfeiriodd rhai ymgeiswyr yn anghywir at arferion yn Lloegr/y DU ynghylch cofrestru a rheoleiddio'r gweithlu, a'r gwasanaethau rheoleiddio ac arolygu a ddefnyddir i archwilio codau ymddygiad/ymarfer proffesiynol. Roedd rhai ymgeiswyr yn disgrifio, yn hytrach na dadansoddi, y wybodaeth oedd ei hangen i fynd i'r afael â'r dasg hon.

D Roedd angen i ymgeiswyr egluro sut y gellid defnyddio dulliau gwahanol yn y lleoliad/gwasanaeth i ddiwallu anghenion a bodloni gofynion unigolion. Roedd yr ymgeiswyr hynny a oedd yn esbonio'r gwahanol fathau o ddulliau a welwyd yn ystod eu lleoliad yn cysylltu theori ag ymarfer yn dda i ennill y marciau uchaf. Roedd rhai ymgeiswyr yn rhoi disgrifiadau arsylwadol, heb gyfeirio at theori ffurfiol ac yn tueddu i gael marciau is. Fodd bynnag, rhoddodd rhai ymgeiswyr ddisgrifiadau clir a manwl, gan gyfeirio at ddulliau seiliedig ar weithgaredd, therapi ymddygiad gwybyddol, therapi ymddygiad a chymorth ymddygiadol cadarnhaol. Rhoddodd nifer o ymgeiswyr ddisgrifiadau mwy generig, a oedd yn dod yn uniongyrchol o ffynonellau eilaidd, ac nad oeddent wedi'u seilio yng nghyd-destun eu lleoliad/gwasanaeth.

DD (ii) Roedd yn ofynnol i ymgeiswyr egluro sut mae ymarfer myfyriol yn cefnogi datblygiad proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y lleoliad/gwasanaeth. Roedd yr ymgeiswyr oedd yn defnyddio eu dyddiadur myfyriol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau megis Kolb, Honey, a Mumford a Schon yn ennill marciau uwch.

© WJEC CBAC Ltd.

Roedd rhai ymgeiswyr yn cyfeirio at fanteision cofnod ysgrifenedig yn eu dyddiadur myfyriol, gan annog myfyrio personol a gwella ymarfer. Cyfeiriwyd rywfaint hefyd at werth gwaith cynllunio gweithredu unigol a mwy personol, cyfarfodydd tîm a rheoli perfformiad yn y lleoliad a ddewiswyd. Yn aml, roedd ymgeiswyr wedi arsylwi ar gyfarfodydd a thrafodaethau tîm rheolaidd i lywio'r gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad, codi ymwybyddiaeth ohonynt a gwella eu heffeithiolrwydd.

Roedd rhai ymgeiswyr wedi dangos eu bod yn ymwybodol sut roedd yr arferion sicrhau ansawdd hyn yn gwella gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn seiliedig ar foddhad y gweithlu yn y lleoliad a ddewiswyd ganddynt.

Cyflwynodd rhai ymgeiswyr lyfryddiaethau cyffredinol manwl i ddangos tystiolaeth o'u hymchwil health i ffynonellau eilaidd, sy'n arfer da. Gwnaeth rhai ymgeiswyr gynnwys cyfeirnodi mewn testun yn eu hadroddiadau a chydnabod dyfyniadau uniongyrchol trwy ddefnyddio dyfynodau a nodi eu ffynhonnell.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol:

1. **Rhaid i ganolfannau sicrhau bod eu hymgeiswyr yn cael eu rhoi mewn lleoliadau / gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer eu lleoliad profiad gwaith**. Enw'r uned hon yw Gweithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Eleni, cafodd nifer sylweddol o ymgeiswyr eu rhoi mewn lleoliadau addysgol fel adrannau anghenion ychwanegol o fewn ysgolion prif ffrwd neu golegau. Mae'r canllawiau ar gyfer uned 6 yn nodi'r lleoliadau/gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol posibl sydd ar gael i fodloni gofynion lleoliad gwaith. Hefyd, noder nad yw lleoliadau mewn siopau elusen na chanolfannau chwaraeon yn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

2. **Rhaid i ganolfannau sicrhau bod yr holl dystiolaeth ddogfennol ofynnol yn cael ei huwchlwytho a'i chyflwyno** i'w chymedroli erbyn y dyddiad cau, 11 Mehefin. Dylai'r cyflwyniad y gofynnir amdano at ddibenion samplu gan CBAC gynnwys:
    - **Gwaith asesiad di-arholiad yr Ymgeisydd** (wedi'i anodi gan yr Athro yn ddelfrydol, ac wedi'i gymedroli'n fewnol os oes dau aseswr neu fwy, er mwyn sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd mewnol wedi cael eu cynnal i safoni marciau ar gyfer y Garfan).
    - **Y Dyddiadur Myfyriol** (a ddylai gynnwys manylion am y lleoliad, a sylwadau myfyriol i gefnogi defnydd yr ymgeisydd o enghreifftiau o'r lleoliad/gwasanaeth i fynd i'r afael â thasgau'r asesiad di-arholiad).
    - **Y Cofnod Ymgysylltu â'r Sector** (i gynnwys y Datganiad gan yr Ymgeisydd bod o leiaf 100 awr, gan gynnwys cymryd rhan mewn 60 awr ar brofiad gwaith wedi digwydd).
    - **Taflen Farciau'r asesiad di-arholiad wedi'i chwblhau –** mae wedi'i llofnodi a'i dyddio gan yr Athro a chan yr Ymgeisydd, i gadarnhau mai dim ond gwaith yr ymgeisydd ydyw ac nad yw llên-ladrad wedi digwydd.
    - **Nodiadau ychwanegol dewisol** (hyd at 2 dudalen o A4 a ddefnyddiwyd gan yr Ymgeisydd sydd wedi'u gwirio am ddilysrwydd gan y Ganolfan).

© WJEC CBAC Ltd.

3. **Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am wirio nad yw eu hymgeiswyr wedi camymddwyn, trwy lên-ladrata gwybodaeth o ffynonellau eilaidd.** Mae nifer o becynnau meddalwedd ar gael i ysgolion a cholegau eu defnyddio wrth gynnal gwiriadau llên-ladrad.

4. **Dylai athrawon anodi gwaith asesu di-arholiad ymgeiswyr, i gyfiawnhau ble, a pham y dyfarnwyd marciau.** Dylai sylwadau ar y Daflen Farciau ar gyfer pob ymgeisydd hefyd ddarparu datganiadau crynodol, sy'n egluro sut y cafodd marciau eu dyfarnu fesul tasg asesu.

5. **Dylid annog ymgeiswyr i nodi'r ffynonellau a ddefnyddiwyd ganddynt yn eu hasesiadau di-arholiad** ac i gyflwyno llyfryddiaethau cyffredinol, sy'n dangos tystiolaeth o'u hymchwil i ffynonellau eilaidd.

6. **Dylai canolfannau gyfeirio at yr adnoddau a'r cyfleoedd hyfforddi, sydd ar gael ar wefan CBAC, sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd i gefnogi athrawon a'u hymgeiswyr.**

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 3**

**Haf 2024**

**UNED 7: ANATOMEG A FFISIOLEG AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL**

**Trosolwg o'r Uned**

Dyma'r ail gyfres lle mae'r uned hon wedi cael ei dyfarnu ac, o'i chymharu â'r gyfres ddiwethaf, gadawodd llai o ymgeiswyr gwestiynau heb eu hateb ac yn gyffredinol dangoswyd gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o'r fanyleb. Rhoddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr gynnig ar bob un o'r cwestiynau ac enillwyd yr ystod lawn o farciau ar gyfer pob cwestiwn. Roedd yr ymatebion yn dangos tystiolaeth bod ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ac y gallent ddangos yn llawn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r fanyleb ar gyfer yr uned hon trwy'r papur. Dylid annog ymgeiswyr i beidio ag ailadrodd y cwestiwn yn eu hatebion gan y gall hyn gyfyngu ar eu hymatebion o ran cynnwys.

Mae'n bwysig bod canolfannau yn ystyried a yw llawysgrifen ymgeiswyr yn ddarllenadwy. Os nad yw llawysgrifen ymgeiswyr yn ddarllenadwy, dylid annog yr ymgeiswyr hyn i sefyll y fersiwn ar sgrin o'r arholiad.

Yn gyffredinol, gallai ymgeiswyr a berfformiodd yn dda ar y papur hwn:

- Nodi a disgrifio'r systemau ffisiolegol dynol yn gywir.
- Dangos dealltwriaeth glir o sut i gymhwyso eu gwybodaeth am y systemau ffisiolegol dynol at les ac iechyd pobl.
- Dangos gwybodaeth dda o'r fanyleb, a chymhwyso cynnwys y fanyleb at les ac iechyd pobl.

Yn gyffredinol, gwnaeth ymgeiswyr nad oedd eu perfformiad cystal ar y papur hwn ddangos:
- Diffyg manylder yn eu hymatebion, gan roi ymatebion cyffredinol ar y systemau ffisiolegol o ran effeithiau camddefnyddio sylweddau
- Diffyg manylion ar y lefel a oedd ei hangen i ateb y cwestiynau amcan asesu uwch megis swyddogaeth celloedd croen a rôl yr hypothalamws yn yr ymennydd dynol.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1** Roedd dwy ran, (a) a (b), i'r cwestiwn hwn. Roedd y ddwy ran yn gofyn i ymgeiswyr nodi esgyrn o'r sgerbwd echelinol ac atodol yn y drefn honno. Llwyddodd llawer o ymgeiswyr i nodi dau o'r tri asgwrn oedd eu hangen ar gyfer y ddwy ran. Nododd rhai ymgeiswyr yn anghywir y mathau o esgyrn, nid yr esgyrn ysgerbydol echelinol ac atodol. Roedd y mwyafrif o ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth am ystod eang o esgyrn yn y ddau gwestiwn.

**Cw.2** Yn yr un modd, rhannwyd y cwestiwn hwn yn ddwy ran, (a) a (b). Roedd gofyn i ymgeiswyr roi disgrifiad o resbiradaeth allanol yn adran A a resbiradaeth fewnol yn adran B. Disgrifiodd llawer o ymgeiswyr y broses resbiradaeth yn weddol dda ac roeddent yn gallu disgrifio'n fewnol gyfnewid nwyon yn yr alfeoli. Disgrifiodd lleiafrif o ymgeiswyr y ffordd y mae carbon monocsid yn gadael y corff pan ddylent fod wedi trafod rôl carbon deuocsid.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.3** Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio rôl y diaffram yn y corff dynol. Disgrifiodd ymgeiswyr a enillodd farciau bandiau uwch rôl y diaffram yn gywir gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr. Trafododd llawer o ymgeiswyr ei rôl wrth anadlu a'r ffordd y mae'n cefnogi osgo. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu disgrifio'r broses mewnanadlu ac allanadlu yn effeithiol. Nododd yr ymatebion lleiaf effeithiol yn syml fod y diaffram yn chwarae rôl o ran anadlu, heb ddatblygu pellach.

**Cw.4** Dyma'r cwestiwn a atebwyd leiaf llwyddiannus gan yr ymgeiswyr gyda rhai yn esbonio swyddogaeth croen ac nid celloedd croen. Mae celloedd croen yn chwarae rôl hanfodol o ran amddiffyn, thermoreoli, rhwystro, atgyweirio ac adfywio. Roedd rhai ymgeiswyr yn effeithiol yn eu hesboniadau, ond nid oedd y mwyafrif yn rhoi esboniad cywir o swyddogaeth celloedd croen.

**Cw.5** Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd yr atebion mwyaf effeithiol yn manylu ar effeithiau alcohol fel sylwedd ar y system dreulio a'r system imiwnedd. Roedd yr ymgeiswyr yn trafod yn effeithiol ystod o glefydau a fyddai'n effeithio ar y systemau, gan enwi nifer o organau o fewn y ddwy system gyda hyder. Pan enillodd ymgeiswyr farciau band is, roeddent wedi trafod un system yn unig yn hytrach na'r ddwy fel y gofynnodd y cwestiwn.

**Cw.6** Roedd rhan gyntaf y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr nodi dwy risg bosibl sy'n gysylltiedig â rhyw diamddiffyn. Cafodd bron pob ymgeisydd farciau llawn ar gyfer y rhan hon o'r cwestiwn ac aethant ymlaen yn hyderus i drafod risgiau posibl rhyw diamddiffyn ar iechyd a lles unigolyn. Braf oedd nodi bod ymgeiswyr wedi defnyddio eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Uned 2 yn y fanyleb ac wedi trafod effeithiau a goblygiadau ehangach o ran anghenion corfforol, deallusol, iaith emosiynol, a chymdeithasol unigolyn. Roedd tystiolaeth o ystyriaeth feistrolgar o'r cwestiwn hwn.

**Cw.7** Gwelwyd llawer o ymatebion rhagorol yn y cwestiwn hwn a rhoddodd ymgeiswyr atebion llawn i egluro sut yr effeithiodd straen ac iselder ar y system gardio-fasgwlaidd a resbiradol. Trafododd llawer o ymgeiswyr effeithiau straen, gan gysylltu hyn â gorfwyta yn benodol a sut y gallai hyn effeithio ar y galon a'r rhydwelïau.

**Cw.8** Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am werthusiad o'r defnydd o ddyfeisiau clyfar i fonitro iechyd a lles. Mewn rhai achosion, esboniodd ymgeiswyr yr hyn y mae dyfeisiau clyfar yn ei wneud a nododd llawer yn anghywir offer mesur corfforol fel dyfais pwysedd gwaed. Trafododd llawer o ymgeiswyr fanteision monitro amser real a'r ffordd y mae hyn yn cysylltu â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Roedd rhai ymgeiswyr yn trafod yn effeithiol yr elfen ddata o'r dyfeisiau hyn o ran cywirdeb, dadansoddiad a chanfod yn gynnar. Ar y cyfan, atebwyd y cwestiwn hwn yn effeithiol.

**Cw.9** Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr egluro rôl yr arennau a pham roedd pwysedd gwaed uchel yn effeithio ar eu rôl. Trafododd cyfran fawr o ymgeiswyr y ffordd y bydd y pibellau yn cael eu niweidio ac yn caledu dan bwysau gwaed uchel parhaus. Trafododd ymgeiswyr hefyd y ffordd y mae'r arennau yn mynd yn llai effeithlon wrth gyflenwi ocsigen a maetholion i feinweoedd yr arennau. Nododd llawer o ymgeiswyr yn hyderus ac yn gywir mai'r brif rôl oedd hidlo gwaed ac y byddai niwed o ganlyniad i bwysedd gwaed uchel yn effeithio ar y swyddogaeth hon.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.10** Nododd llawer o ymgeiswyr rôl yr hypothalamws ac roeddent yn gallu egluro ei fod yn gweithredu fel y prif weinydd ar gyfer yr hormonau yn y corff. Gwnaeth yr ymgeiswyr mwy abl restru ac egluro llawer o swyddogaethau megis cwsg, swyddogaeth endocrin ac ymatebion emosiynol. Fodd bynnag, nid oedd llawer o ymgeiswyr wedi trafod y swyddogaeth ehangach o ran thermoreoli a chydbwyso dŵr.

**Cw.11** Roedd dwy ran i'r cwestiwn: disgrifiad o'r rhaglen sgrinio coluddion a phwysigrwydd rhaglen sgrinio coluddion i gynnal iechyd a lles unigolyn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gwybod beth oedd proses y rhaglen sgrinio coluddion yn ei olygu ac er bod rhai wedi drysu rhwng y rhaglen hon a sgrinio canser ceg y groth. Ar gyfer rhan (a), disgrifiodd llawer o ymgeiswyr y sampl bost yn gywir a chyfeiriodd rhai at sganiau clinigol sy'n cael eu cynnal mewn ysbyty. Ar gyfer yr ail ran o'r cwestiwn, asesodd yr ymgeiswyr yn weddol effeithiol, bwysigrwydd sgrinio coluddion ar iechyd a lles. Roedd yr ymatebion yn amrywio o dawelwch meddwl i'r cyfle i ganfod canser yn gynnar, a bu llawer yn trafod rôl ymarferwyr gofal iechyd wrth gefnogi diagnosis a'r broses brofi. Trafododd llawer o ymgeiswyr bwrpas y prawf i ganfod canser yn gynnar gan egluro y byddai'n atal y cyflwr rhag gwaethygu.

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 3**

**Haf 2024**

**UNED 8: CEFNOGI IECHYD A LLESIANT OEDOLION YNG NGHYMRU I SICRHAU CANLYNIADAU CADARNHAOL**

**Trosolwg o'r Uned**

Dyma'r tro cyntaf i'r uned hon gael ei hasesu yn y gyfres hon. Braf oedd gweld bod canolfannau ar y cyfan wedi cyflwyno cofnodion a nodiadau yr oedd yr ymgeiswyr wedi eu cynhyrchu.
Mae gofyniad rheoleiddio ar CBAC i sicrhau bod unrhyw waith asesu di-arholiad a gyflwynir i'w asesu yn gallu cael ei ddilysu fel gwaith digymorth yr ymgeisydd. Rhaid i ymgeiswyr ac athrawon lofnodi datganiad i gadarnhau mai gwaith digymorth yr ymgeisydd yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu'n derfynol. Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau'r Ganolfan ar ffurflenni datganiad i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd a lle mae'r marciau wedi cael eu rhannu rhwng amcanion asesu. Roedd anodiadau ar waith neu gynnwys taflenni marciau yn dangos lle y dyfarnwyd marciau, yn cynorthwyo'r broses gymedroli i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd. Gwelwyd gwaith asesu cywir gan y rhan fwyaf o ganolfannau, ond dylid nodi, er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch, rhaid i ymgeiswyr roi tystiolaeth fanylach sy'n bodloni gofynion y fanyleb, yr amcanion asesu a'r geiriau gorchymyn.

**Tasgau**
**Sylwadau am dasgau/cwestiynau yn ymwneud â pherfformiad ymgeiswyr/bodloni meini prawf asesu**

**Tasg 1**
Roedd y tasgau mewn trefn ac wedi'u labelu'n glir mewn adrannau gan y mwyafrif o ymgeiswyr. Braf oedd nodi bod ymgeiswyr wedi rhoi cyfrif geiriau a bod y gwaith wedi cael ei asesu'n gywir gan yr aseswyr.

A) AA2

Roedd yr adran hon yn gofyn am esboniad o'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol bosibl sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi canlyniadau llesiant personol yr unigolyn. Argymhellir ar gyfer Tasg 1 (a) bod yr esboniad o ddarpariaeth/cyflwyno'r ddarpariaeth yn cael ei gyfuno a bod ffyrdd o asesu anghenion unigol yn cael eu nodi ar wahân. Mae hyn yn helpu ymgeiswyr i strwythuro eu hateb yn well.

Braf oedd gweld ymgeiswyr yn ymwybodol o'r ddarpariaeth wahanol sydd ar gael yng Nghymru. Roedd ymgeiswyr a enillodd farciau uwch yn gallu nodi eu hateb yn briodol, er enghraifft, roedd yn dda gweld ymgeiswyr yn cyfuno eu hesboniadau o ddarpariaeth â chyflwyno'r ddarpariaeth. Er enghraifft, pe bai ymgeisydd yn esbonio darpariaeth statudol, aeth ymlaen i esbonio sut y byddai Jason yn cael gafael ar y ddarpariaeth hon ac yn cysylltu enghreifftiau â chanlyniadau llesiant Jason; mae hyn yn gosod yr olygfa ynglŷn â sut y gellid darparu darpariaeth i gefnogi Jason.

Roedd ymgeiswyr a enillodd farciau uwch yn gallu rhoi amrywiaeth o ddarpariaethau gwahanol a oedd yn dangos gafael fanwl a hyderus, gan gynnwys cyfeirio at ystod o ddarpariaeth statudol, darpariaeth annibynnol a darpariaeth gan y trydydd sector. Roedd yn galonogol gweld rhai ymgeiswyr yn gwahaniaethu rhwng gwasanaethau arferol a'r rhai nad ydynt yn arferol, ac ymyrraeth gynnar/gwasanaethau ataliol. Gwelwyd darpariaeth ddi-dâl hefyd yn atebion ymgeiswyr a oedd yn cysylltu'n

© WJEC CBAC Ltd.

uniongyrchol ag astudiaeth achos Jason gan y byddai ei fam yn cael ei hystyried yn ofalwr di-dâl.

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o broffesiynau/therapi/gwasanaethau iechyd penodol fel y'u rhestrir yn y fanyleb (e.e. deietegwyr, ffisiotherapyddion, therapi galwedigaethol a gwasanaethau gofal dydd) gan fod rhai ymgeiswyr wedi drysu rhwng eu rolau o ran cefnogi Jason neu nad oeddent wedi rhoi esboniad manwl o'r ddarpariaeth gofal a chymorth. Yn benodol, byddai deietegydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn i Jason oherwydd ei BMI a'i ddiabetes. Nid oedd rhai ymgeiswyr wedi egluro hyn yn glir. Mewn rhai achosion, roedd ymgeiswyr yn tybio y byddai'r holl ddarpariaethau hyn yn statudol, nad yw'n wir yng Nghymru.

O ran yr asesiad ar gyfer Tasg 1, roedd yr ymgeiswyr yn gyffredinol yn dangos rhywfaint o wybodaeth am y broses asesu, ond yr agwedd bwysig yma yw dangos 'sut' y byddai anghenion Jason yn cael eu hasesu. Gosododd ymatebion manwl yr olygfa drwy esbonio sut y byddai Jason wedi cael diagnosis o'i gyflyrau, yna ystyried sut y byddai asesiad anghenion gofal cymdeithasol yn cael ei gynnal oherwydd ei anghenion gofal/cymorth. Yr allwedd i'r adran hon yw 'sut' y byddai asesiad anghenion yn cael ei gynnal yng Nghymru. Gallai ymgeiswyr a ddangosodd afael hyderus ddefnyddio termau penodol fel 'asesiadau cymesur 'dull sy'n seiliedig ar gryfderau', 'cam-drin/esgeulustod'.

B) AA1

Roedd gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio'r gwahanol ddulliau iechyd fyddai'n gallu cael eu defnyddio i hybu a diogelu iechyd meddwl a lles yr unigolyn. Roedd yn braf gweld bod ymgeiswyr yn ymwybodol o ystod eang o ddulliau iechyd gwahanol y gellir eu defnyddio i hybu a diogelu iechyd meddwl a lles yr unigolyn a enwir. Nid oedd rhai ymgeiswyr yn gallu rhoi disgrifiad o'r dulliau hyn a dim ond eu rhestru a wnaethant. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ystyried sut y gallai'r dull gweithredu hybu a diogelu iechyd meddwl a lles Jason.

Roedd ymatebion ymgeiswyr lefel uwch canolbwyntio'n uniongyrchol ar y dulliau ac yn eu cymhwyso'n uniongyrchol at Jason (trwy ystyried Jason bob amser mae ymgeiswyr yn bodloni agwedd gyfeirio dda neu ragorol band 3).

Nid oes rheol ynglŷn â faint o ddulliau sydd eu hangen, ond mae angen iddynt fod yn eang eu cwmpas; rhoddodd rhai ymgeiswyr ystod eang o wahanol apiau y gellid eu defnyddio, er bod hyn yn beth dda i'w weld, dim ond fel un dull o dan gyfryngau cymdeithasol neu gyfryngau torfol y byddai'n cael ei gyfrif.

Gwnaeth llawer o ymgeiswyr ystyried y dulliau canlynol:
Newid ymddygiadol, meddygol, addysgol, enghreifftiau o'r cyfryngau torfol a gweithio mewn partneriaeth; pe baent yn defnyddio'r fformiwla uchod, byddent yn gallu ennill yr uchafswm marciau.

C) AA3

Roedd yr adran hon yn gofyn am ddadansoddi a gwerthuso'r dull priodol a enwyd. Yr adran hon oedd yr un leiaf llwyddiannus o ran ymatebion. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gwbl ymwybodol o'r term 'archwiliwch' gan fod angen i ymatebion ystyried cryfderau a gwendidau. Er mwyn dangos archwiliad manwl a thrylwyr, roedd gofyn i ymgeiswyr ystyried materion moesegol, nodweddion personol a thystiolaeth ategol (fel y'u nodwyd yn y fanyleb) yn llawn.

© WJEC CBAC Ltd.

Roedd y dull a enwyd yn 'ddyneiddiol'. Atebwyd hyn yn weddol dda, ond, unwaith eto, yr allwedd i'r bandiau marciau uwch oedd y cryfderau a'r cyfyngiadau. Braf oedd gweld rhai cyfeiriadau at ddamcaniaethau Maslow/Roger yn ymatebion rhai ymgeiswyr.

Dylai ymgeiswyr ganolbwyntio ar y gwahanol ddulliau/technegau y gellir eu defnyddio – drwy gysylltu'r dull â'r dechneg gan y gallai hyn eu helpu i drafod dulliau amgen naill ai i dderbyn neu wrthod hyn.

Dylid nodi hefyd na all ymgeiswyr gyrraedd band 3 os nad ydynt wedi ystyried y dull (dyneiddiol) a thechneg bellach.

**Tasg 2**

**AA1**

Braf oedd gweld bod yr ymgeiswyr yn gallu dangos eu gwybodaeth drwy ddilyn briff yr aseiniad a chynhyrchu llyfryn gwybodaeth, gan gynnwys dulliau creadigol gan ddefnyddio ymylon, gwahanol ffontiau, a lliwiau. Braf hefyd oedd nodi bod ymgeiswyr wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyflwyno i gyflwyno eu llyfryn gwybodaeth.

O ran y Dasg ei hun, roedd ymatebion datblygedig yn amlinellu ystod eang o strategaethau a dulliau gweithredu ac roeddent yn glir o ran sut y byddent yn cefnogi patrymau ymddygiad cadarnhaol ac yn cyflawni nodau llesiant Jason. Yr allwedd i'r bandiau uwch yw'r ffocws ar Jason. Roedd rhai ymgeiswyr wedi hepgor rhoi amlinelliad byr o'r dull neu'r strategaeth a fyddai'n golygu pan fydd Jason yn codi'r llyfryn gwybodaeth na fyddai'n deall beth oedd pwrpas y dull neu'r strategaeth.

Un ffordd ddefnyddiol i ymgeiswyr roi'r prif bwyntiau wrth amlinellu yw trwy:

1. Rhoi'r dull neu'r strategaeth (gan sicrhau bod hyn yn briodol i Jason)
2. Disgrifio hyn yn gryno a'r hyn y byddai Jason yn ei ddisgwyl
3. Sut y byddai'r dull neu'r strategaeth hon yn helpu'n uniongyrchol gydag ymddygiad Jason ac yn cyflawni ei nodau llesiant.

Byddai ymgeiswyr sy'n gallu gwneud hyn ar gyfer ystod eang o ddulliau/strategaethau, yn gallu cyrraedd y bandiau uwch.

Roedd rhai ymgeiswyr yn canolbwyntio ar therapi hel atgofion/cynllun glöyn byw nad oedd yn berthnasol i Jason ac felly na roddwyd marciau am hynny. Roedd rhai ymgeiswyr yn y pen isaf ond yn disgrifio ystod fach o ddulliau heb unrhyw gyfeiriad at Jason na'i nodau llesiant.

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 3**

**Haf 2024**

**UNED 9: YMCHWILIO I FATERION CYFOES YM MAES IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU**

**Trosolwg o'r Uned**

Gwelwyd gwaith asesu cywir gan y rhan fwyaf o ganolfannau, ond dylid nodi, er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch, rhaid i ymgeiswyr roi tystiolaeth fanylach sy'n bodloni gofynion y fanyleb, yr amcanion asesu a'r geiriau gorchymyn.

Roedd gwaith ymgeiswyr yn dilyn amcanion asesu'r corff dyfarnu, ac roedd tasgau'n gysylltiedig â'r amcanion hyn. Cofnodwyd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd yn dda trwy gyfeirnodau. Dylai'r asesiad ddilyn strwythur yr asesiad (Tasg 1, Tasg 2, adrannau A, B, C ac ati) a dylid defnyddio'r adrannau hyn fel teitlau, a fyddai wedyn yn arwain at gynhyrchu gwaith o natur gydlynol.

Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau'r Ganolfan ar ffurflenni datganiad i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd a lle mae'r marciau wedi'u rhannu rhwng amcanion asesu. Roedd anodiadau ar waith neu gynnwys taflenni marciau, yn amlygu lle y dyfarnwyd marciau, yn cynorthwyo'r broses gymedroli i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd.

Mae gofyniad rheoleiddio ar CBAC i sicrhau bod unrhyw waith asesu di-arholiad a gyflwynir i'w asesu yn gallu cael ei ddilysu fel gwaith digymorth yr ymgeisydd. Rhaid i ymgeiswyr ac athrawon lofnodi datganiad i gadarnhau mai gwaith digymorth yr ymgeisydd yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu'n derfynol.

Nodyn i atgoffa bod adnoddau i gefnogi cyflwyno i'w cael ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru.

**Tasgau**
**Sylwadau am dasgau/cwestiynau yn ymwneud â pherfformiad ymgeiswyr/bodloni meini prawf asesu**

**Tasg 1**

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu amlinellu sut y byddent yn cynnal eu hymchwiliad i'r mater cyfoes. Roedd gwybodaeth dda a sylw o'r gwahanol agweddau ar eu rhesymeg.

Cwblhawyd y dasg yn fformat priodol adroddiad. Dewisodd y mwyafrif o ymgeiswyr faterion cyfoes priodol a oedd yn fodd iddynt gyflawni'r amcanion asesu a chyrraedd y bandiau marciau uwch. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymchwilio i'r mater cyfoes cyn dechrau Tasg 2 er mwyn sicrhau bod digon o gyfle i gyflawni'r amcanion asesu. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

© WJEC CBAC Ltd.

Roedd y ffordd y cwmpaswyd yr amcanion asesu yn dda iawn gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr. Mae angen i rai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cwmpasu'r holl feini prawf cyflawni a nodir yn y fanyleb (asesu) yn fanwl a gyda dyfnder ar gyfer y band marciau uwch. Mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn dyfarnu marciau uwch.

- Adnabod nodau ac amcanion
- Dangos gwybodaeth glir a manwl am gynnal ymchwiliad
- Diffinio blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant
- Amlinellu terfynau amser
- Adnabod risgiau yn gywir a sut y cânt eu rheoli
- Mae amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys llyfrau, cyfnodolion a gwefannau, wedi cael eu nodi ac mae'r defnydd ohonynt wedi cael ei esbonio'n gywir
- Nodi ystyriaethau moesegol

Roedd yr ymchwil yn berthnasol ac wedi'i chymhwyso'n briodol, mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirnodi'r rhain.

**Tasg 2**

Cwblhawyd Tasg 2 yn fformat priodol adroddiad. Dylai ymgeiswyr ddilyn strwythur yr asesiad (Adran A, B, C ac ati) a dylid defnyddio'r adrannau hyn fel teitlau, sy'n helpu i gynhyrchu gwaith o natur gydlynol. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

**Adran A**

Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae'r mater cyfoes yn effeithio ar iechyd a lles unigolion a'r gwasanaethau yng Nghymru.

Roedd yr ymchwil yn berthnasol ac yn cael ei chymhwyso'n briodol a chyfeiriwyd at y rhan fwyaf o'r ymchwil/adnoddau. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod gan y cynnwys fwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraed band marciau uwch.

Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn dyfarnu marciau uwch.

- Esboniad o'r mater cyfoes
- Effeithiau'r mater cyfoes ar iechyd a lles unigolion
- Effeithiau'r mater cyfoes ar y gwasanaethau iechyd a lles Yng Nghymru
- Dealltwriaeth o anghenion corfforol, deallusol, iaith, emosiynol a chymdeithasol, a'r effaith ar fywydau bob dydd
- Rhoddir ffeithiau ac ystadegau i ategu disgrifiad o'r effeithiau ar wasanaethau.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirnodi'r rhain.

© WJEC CBAC Ltd.

**Adran B**

Roedd ymgeiswyr yn dangos lefel dda o wybodaeth am addasrwydd ymchwil gyhoeddedig i'r mater cyfoes o'u dewis, gan gynnwys y mathau o ymchwil a gyhoeddwyd, a dibynadwyedd, dilysrwydd a hygrededd yr ymchwil a'r sefydliadau a oedd yn ymwneud â'i chynhyrchu a'i chyhoeddi. Mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn dyfarnu marciau uwch.

- Gwerthusiad o ymchwil gyhoeddedig a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, mewn perthynas â'r mater cyfoes
- Gwaith ymchwil cynradd a/neu eilaidd
- Data ansoddol a/neu feintiol
- Y methodolegau ymchwil a ddefnyddir gan sefydliadau sydd wedi cyhoeddi data
- Dibynadwyedd, credadwyedd a dilysrwydd
- Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso cyson a phriodol yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirnodi'r rhain.

**Adran C**

Roedd ymgeiswyr yn dangos lefel dda o wybodaeth o ran dadansoddi ymchwil a data dethol, gan gynnwys patrymau a thueddiadau a gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol ffynonellau. O ran rhai ymgeiswyr, mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn dyfarnu marciau uwch.

- Dadansoddiad o batrymau a thueddiadau gyda chysylltiadau rhagorol rhwng gwahanol ffynonellau
- Nodwyd unrhyw gyfyngiadau sydd i'r gwaith ymchwil
- Dehongli a dadansoddi gwybodaeth a data perthnasol
- Dealltwriaeth o unrhyw faterion moesegol perthnasol
- Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi/gwerthuso cyson a phriodol yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirnodi'r rhain.

**Adran Ch**

Roedd ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae ymchwil i'r mater cyfoes o'u dewis yn cael ei defnyddio, neu wedi cael ei defnyddio, i lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth, polisïau a strategaethau newydd a diwygiedig, a/neu ddylanwadu ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

O ran rhai ymgeiswyr, mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn dyfarnu marciau uwch.

- Esboniad o'r ffordd y caiff gwaith ymchwil ei ddefnyddio i lywio'r broses o ddatblygu deddfwriaeth, polisïau a strategaethau newydd, a diwygio'r rhai sydd eisoes yn bodoli, a/neu'n dylanwadu ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth, polisïau a strategaethau

© WJEC CBAC Ltd.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirnodi'r rhain.

**Adran D**

Roedd ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda wrth wneud argymhellion ar ba waith ymchwil pellach y gellid ei wneud yn y dyfodol ac egluro pam y byddai ymchwil o'r fath yn fuddiol.

O ran rhai ymgeiswyr, mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn dyfarnu marciau uwch.

- Pa waith ymchwil pellach y gellid ei wneud, gan wneud argymhellion dilys ac y gellir eu cyfiawnhau.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirnodi'r rhain.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

Mae angen i waith ymgeiswyr gadw at amcanion asesu'r corff dyfarnu a rhaid sicrhau bod y gwaith yn ymdrin yn llawn â'r rhain cyn dyfarnu bandiau marciau uwch. Mae'r wybodaeth hon ar dudalennau 61-64 o'r fanyleb.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio atynt. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar ôl pob adran. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod gwaith wedi'i gyfeirnodi fel y'i nodir yn y fanyleb.

Anogir y defnydd o benawdau (Adran a, b, c ac ati.) i helpu ymgeiswyr i gyflwyno gwaith.

Nodyn atgoffa bod adnoddau i gefnogi'r broses gyflwyno ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru.

© WJEC CBAC Ltd.

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 029 2240 4262
E-bost: igceach@cbac.co.uk
Tudalen pwnc y cymhwyster: Cymwysterau Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Asesiad Cyntaf 2024) (dysguiechydagofal.cymru)

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.